# Bundle Health Board - Welsh 21 January 2021

9.30am Trwy Zoom

1 Agenda

Agenda Board 21.1.20 Public V1.0_Cymraeg.docx

2 21/4 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 12.11.20 er cywirdeb ac adolygu'r Cofnod Cryno o Weithredoedd

21.4a Minutes Board 12.11.20 Public V0.02_Cymraeg.docx

3 21/6 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddaru Cofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) i Gymru a Diweddaru Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Arpan Guha

21.6 Section 12 Doctors_Cymraeg.docx

4 21/7 Dogfennau a Arwyddwyd dan Sêl - Louise Brereton

21.7 Documents signed under seal CYMRAEG v1.0 Approved.docx

5 21/8 Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Blynyddol - Mark Wilkinson

*I ddilyn*

6 21/9 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad - Mark Wilkinson

21.9a QPR_Cymraeg.docx

7 21/10 Adroddiad Cyllid Mis 7 - Sue Hill

21.10a Finance Report M07_Cymraeg.docx

21.10b Finance Slides M07_Cymraeg.pptx

8 21/11 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cynghorol

*21/11.1 Pwyllgor Archwilio 17.12.20 (Medwyn Hughes)*
*21/11.2 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 3.11.20 (Lucy Reid)*
*21/11.3 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 22.12.20 (Mark Polin)*
*21/11.4 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 8.12.20 (Jackie Hughes)*
*21/11.5 Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl 8.12.20 (Lucy Reid)*
*21/11.6 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (Lyn Meadows) 10.12.20*
*21/11.7 Grp Cyfeirio Rhanddeiliaid 14.12.20 (Ffrancon Williams)*
*21/11.8 Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd 4.12.20 (Gareth Evans)*

21.11.1 Chair's Assurance Report Audit 17.12.20_Cymraeg.docx

21.11.2 Chair's Assurance Report QSE 3.11.20 V1.0_Cymraeg.docx

21.11.3 Chair's Assurance Report FPC 21.12.20 v1.0_Cymraeg.docx

21.11.4 Chair's Assurance Report CFC 08.12.20_Cymraeg.docx

21.11.5 Chair's Assurance Report MHAC 8.12.20 V1.0_Cymraeg.docx

21.11.6 Chair's Assurance Report SPPHC 10.12.20 v1.0_Cymraeg.docx

21.11.7 Chair's Report SRG 14.12.20 v2.0_Cymraeg.doc

21.11.8 Chair's Report HPF 04.12.20 V1.0_Cymraeg.doc

9 21/16 Crynodeb o Fusnes Heb y Cyhoedd y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus - Louise Brereton

21.16 Private session items reported in public CYMRAEG.docx

**Bwrdd Iechyd**
**Agenda – Sesiwn Gyhoeddus**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 21/01/2021 |
| **Amser** | 9:30 – 12:15 |
| **Lleoliad** | Rhithiol drwy Zoom |
| **Cadeirydd** | Mark Polin |

| | **Eitem ar yr Agenda** |
|---|---|
| **MATERION AGORIADOL A LLYWODRAETHU EFFEITHIOL** | |
| 21/1 | **Datganiad Agoriadol y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr - Mark Polin a Jo Whitehead** |
| 21/2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
| 21/3 | **Datganiadau o Fuddiant** |
| 21/4 | **Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 12.11.20 er cywirdeb ac adolygu'r Cofnod Cryno o Weithredoedd** |
| 21/5 | **Mesurau Arbennig – Gill Harris** |
| **EITEMAU AR GYFER CYDSYNIAD** | |
| 21/6 | **Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddaru Cofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) i Gymru a Diweddaru Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Arpan Guha** |
| 21/7 | **Dogfennau a Arwyddwyd dan Sêl - Louise Brereton** |
| **I'W DRAFOD** | |
| | **Adroddiadau Perfformiad - Mark Wilkinson** |
| 21/8 | **Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Blynyddol - Mark Wilkinson** |
| 21/9 | **Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad - Mark Wilkinson** |
| 21/10 | **Adroddiad Cyllid Mis 7 - Sue Hill** |
| 21/11 | **Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cynghorol** |

| | |
|---|---|
| | 21/11.1 Pwyllgor Archwilio 17.12.20 (Medwyn Hughes)<br>21/11.2 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 3.11.20 (Lucy Reid)<br>21/11.3 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 22.12.20 (Mark Polin)<br>21/11.4 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 8.12.20 (Jackie Hughes)<br>21/11.5 Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl 8.12.20 (Lucy Reid)<br>21/11.6 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (Lyn Meadows) 10.12.20<br>21/11.7 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 14.12.20 (Ffrancon Williams)<br>21/11.8 Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd 4.12.20 (Gareth Evans) |
| 21/12 | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd – Gill Harris / Louise Brereton** |
| 21/13 | **Archwilio Cymru : Asesiad Strwythuredig & Llythyr Archwilio Blynyddol - Louise Brereton** |
| 21/14 | **Y Diweddaraf ar y Pandemig Covid-19 - Chris Stockport** |
| **I'W BENDERFYNU** | |
| 21/15 | **Achos Strategol Amlinellol Llety Preswyl - Mark Wilkinson** |
| **ER GWYBODAETH** | |
| 21/16 | **Crynodeb o Fusnes Heb y Cyhoedd y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus - Louise Brereton** |
| 21/17 | **Fforwm Cymru Gyfan a Fforymau Eraill** |
| **MATERION I GLOI** | |
| 21/18 | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>11.3.21 |
| 21/19 | **Heb y Wasg a'r Cyhoedd**<br>Penderfyniad i Wahardd y Wasg a'r Cyhoedd - "Bod cynrychiolwyr o’r wasg ac aelodau eraill o’r cyhoedd i gael eu gwahardd o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i’w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i fuddiant y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960)." |

V1.0

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 12 Tachwedd 2020 Drwy Gynadledda Webex**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Mark Polin | Cadeirydd |
| Nicky Callow | Aelod Annibynnol ~ Prifysgol |
| Cheryl Carlisle | Aelod Annibynnol |
| John Cunliffe | Aelod Annibynnol |
| Morwena Edwards | Aelod Cyswllt ~ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Gareth Evans | Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd |
| Sue Green | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (OD) |
| Arpan Guha | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro |
| Gill Harris | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Debra Hickman | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro |
| Sue Hill | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro |
| Jackie Hughes | Aelod Annibynnol |
| Medwyn Hughes | Aelod Annibynnol |
| Eifion Jones | Aelod Annibynnol |
| Lyn Meadows | Aelod Annibynnol |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus / Dirprwy Brif Swyddog |
| Lucy Reid | Gweithredol Dros Dro |
| Dawn Sharp | Is-gadeirydd |
| Chris Stockport | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Adrian Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol |
| Linda Tomos | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd (*rhan o'r cyfarfod*) |
| Mark Wilkinson | Aelod Annibynnol |
| Ffrancon Williams | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad |
| | Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) |

| **Yn mynychu:** | |
|---|---|
| Ruth Coombs | Pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (*rhan o'r cyfarfod)* |
| Kate Dunn | Pennaeth Materion Corfforaethol (*ar gyfer cofnodion)* |
| Simon Evans-Evans | Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro |
| Ffion Johnstone | Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin (*rhan o'r cyfarfod)* |
| Gavin MacDonald | Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro |
| Sally Thomas | Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (*rhan o'r cyfarfod)* |

| **Eitem ar yr Agenda a Drafodwyd** | **Gweithredu gan** |
|---|---|
| **20.122 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd** | |

| | |
|---|---|
| **20.122.1** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a oedd yn cael ei ffrydio'n fyw unwaith eto er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd i wylio'r cyfarfod mewn amser real. O ran cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, roedd yn falch o adrodd bod system arall yn cael ei rhoi ar brawf a ddylai alluogi'r Bwrdd i gynnal cyfarfodydd cwbl ddwyieithog unwaith eto o Ionawr 2021 ymlaen. Yn y cyfamser, gwnaeth annog unrhyw aelod a oedd yn awyddus i gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny, ond gofynnodd iddynt fod cystal â rhoi cyfieithiad cryno o'u sylw neu eu cwestiwn yn Saesneg.<br><br>**20.122.2** Cyflwynodd y Cadeirydd Linda Tomos fel Aelod Annibynnol newydd ei phenodi a oedd dechrau ar gyfnod pedair blynedd gyda'r Bwrdd Iechyd.<br><br>**20.122.3** Adroddodd y Cadeirydd fod camau gweithredu Cadeirydd y Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd i wella'r contract gwyddorau gwaed awtomatig ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) ei gymeradwyo, a hefyd bod camau gweithredu ar y cyd rhwng Cadeiryddion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio wedi'u cymryd i gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Cabinet Covid-19 a oedd bellach yn cyfarfod unwaith eto bob mis.<br><br>**20.122.4** Gwnaeth y Cadeirydd groesawu'r pecyn cymorth ariannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (LIC) a fyddai'n galluogi'r Bwrdd i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol ac i ganolbwyntio ar welliannau i ofal wedi'i gynllunio ac iechyd meddwl dros y flwyddyn sydd i ddod, yn ogystal â gwneud gwelliannau pellach i ofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu dros y tair blynedd nesaf. Cadarnhaodd fod y Bwrdd yn cael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfleoedd i wella cynnydd ymhellach o ran Mesurau Arbennig hefyd.<br><br>**20.122.5** Gofynnodd y Cadeirydd i ddiweddariad cyffredinol gael ei roi ar bandemig Covid-19. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod 128 o gleifion ar hyn o bryd â diagnosis Covid-19 sy'n derbyn gofal mewn ysbytai yng ngogledd Cymru a phenderfynwyd agor Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy i ategu cynlluniau ymchwydd ac i wella capasiti. Roedd hyn wedi'i gyflawni gyda chefnogaeth partneriaid. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol ei bod yn parhau i fod yn brysur iawn mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol ond roedd rhai arwyddion a allai fod yn addawol fod profion positif yn y gymuned a niferoedd yn gyffredinol am bob 100,000 yn lleihau. Ar gyfartaledd, roedd rhyw 2500 o brofion yn cael eu cwblhau bob dydd ac roedd proffil oedran eang diagnosisau positif yn parhau i fod yn sefydlog. Nododd fod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael cymhlethdodau o ganlyniad i Covid-19 a bod derbyniadau wedi cynyddu dros yr wythnosau diwethaf ac mai'r disgwyl oedd y byddai hyn yn parhau. Roedd chwe chlaf yn derbyn gofal critigol ychwanegol ar yr adeg a oedd ar gyfran is o gymharu â'r don gyntaf ac roedd yn adlewyrchu bod triniaethau sydd ar gael i gleifion Covid-19 wedi newid. Nodwyd bod anawsterau o ran diwallu lefelau presennol y cleifion mewnol o ran cadw cleifion ar wahân a bodloni'r gofynion ymbellhau cymdeithasol ychwanegol a bod y cymhlethdod cynyddol hwn wedi cyfrannu at y penderfyniad i agor un o'r ysbytai Enfys. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol at weithgarwch hefyd y tu allan i amgylchedd yr ysbyty o ran y cymorth ychwanegol sy'n cael ei roi i gartrefi gofal er mwyn gwella'r ddarpariaeth gofal ar gyfer preswylwyr. O ran brechu torfol a sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar, cadarnhaodd fod cynlluniau'n symud ymlaen yn dda yng ngogledd Cymru ac y byddai'r Bwrdd mewn sefyllfa i roi brechiad gan ddefnyddio | |

| | |
|---|---|
| ymagwedd ar sail risg cyn gynted ag y byddai ar gael. Nododd y byddai hyn yn broses hynod gymhleth. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd mewn perthynas â phwysau arall a pharatoadau ar gyfer y gaeaf, nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol fod y sefydliad yn ymdopi'n dda ar y cyfan o ran pwysau lluosog ar y system, ac roedd safleoedd yn parhau i gynnig cymaint o ofal wedi'i gynllunio â phosibl. Cydnabu'r Prif Weithredwr Dros Dro y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan staff a phartneriaid i gynnal gwasanaethau ond cydnabuwyd bod cyfyngiadau o ran argaeledd y gweithlu. Nododd fod y gwaith parhaus o ran cynlluniau'r gaeaf yn cynnwys yr angen i wella cyfleoedd o ran gofal digidol gymaint â phosibl i leihau nifer y bobl ar safleoedd ar draws y sefydliad. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod holl elfennau Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) yn brysurach erbyn hyn na chyn y cyfnod atal byr am bythefnos yng Nghymru, ond bod lleihad o ran y niferoedd o ran olrhain. Rhoddodd sicrwydd i aelodau fod digonedd o gyfleoedd profi ac y gofynnir am gefnogaeth aelodau'r cyhoedd o ran ymateb i geisiadau am wybodaeth am olrhain. | |
| **20.123 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>Wedi'u cofnodi ar gyfer Andy Roach a Helen Wilkinson. | |
| **20.124 Datganiadau o Fuddiant**<br><br>Datganodd Gareth Evans fuddiant yn eitem 20.131 Ysbyty Brenhinol Cymunedol Alexandra (Gogledd Sir Ddinbych), o ran ei rôl fel Cyfarwyddwr Prosiect yr achos busnes. | |
| **20.125 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 24.9.20 am fanwl-gywirdeb ac adolygu'r Cofnod Cryno o Weithredoedd**<br><br>**20.125.1** Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir a nodwyd y diweddariadau i'r cofnod cryno o weithredoedd.<br><br>**20.125.2** Ers cyhoeddi'r agenda, roedd aelodau wedi derbyn diweddariadau pellach gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fel a ganlyn<br><br>**Gweithred 20/73.5** Cadarnhawyd bod yr holl offer labordy ar waith erbyn hyn gan gynnwys defnyddio peiriannau Starlet a Nimbus. Nodwyd y trwybwn presennol ar sail y llwyth gwaith rheolaidd presennol.<br><br>**Gweithred 20/73.6** Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gofyn am ymagwedd "SitRep". Roedd y Bwrdd yn cael trafodaethau wythnosol gyda Llywodraeth Cymru ar Brofi ac Olrhain (TAT) ar gyfer y system. Roedd y ffocws dros yr wythnosau diwethaf wedi bod ar gamau gweithredol o ran gofynion profi ar draws y rhanbarth, ac yn genedlaethol. Roedd y data TAT yn gliriach a derbyniodd y arweinydd TTP drosolwg TAT wythnosol ar gyfer y system (Labordy Goleudy ac Iechyd Cyhoeddus Cymru). O ystyried y patrymau gwaith cyfnewidiol ac amserlenni cynnal ar y tri safle, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru | |

| | |
|---|---|
| wedi cynghori mai'r capasiti profi uchaf (labordy) oedd 1800 o samplau rheolaidd bob dydd a 105 o samplau cyflym bob dydd ar draws y Bwrdd Iechyd. Wrth i staff newydd gael eu hintegreiddio i'r labordy, byddai hyn yn cael ei adolygu. Cafodd llifoedd gwaith presennol ar draws y tri safle eu darparu. Adroddwyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dechrau gweithio 24 awr y dydd, saith niwrnod o'r wythnos yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) gyda chymorth un Gwyddonydd Biofeddygol yn y lle cyntaf, a fyddai'n cynyddu i dîm o bedwar erbyn diwedd mis Tachwedd i gynorthwyo'r cynnydd disgwyliedig mewn llwyth gwaith.<br><br>**Gweithred 20.107.2** Cytunwyd gyda'r Is-gadeirydd y byddai adroddiad ar fater rhyddhau nifer fawr o gleifion i Wasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Cychwynnol Lleol yn cael ei drafod yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch yr uwch adran ar 19.11.20 ac yna, gan y Grŵp Cleifion, Diogelwch ac Ansawdd cyn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) ym mis Ionawr. Adroddwyd bod yr uwch adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) yn ymrwymedig i weithio gyda chydweithwyr gofal cychwynnol a phartneriaid i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu datblygu.<br><br>**20.125.3** Gwahoddodd y Cadeirydd i Gadeirydd y QSE ddiweddaru'r Bwrdd ynghylch gweithred adroddiad Holden a gafodd ei gau ar y cofnod o weithredoedd. Adroddodd Cadeirydd y QSE fod y Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar 3.11.20 gan fod adroddiad llawn o'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal gyferbyn ag argymhellion Holden wedi cael ei ohirio oherwydd newidiadau i bersonél yn yr Uwch Adran. Gwnaeth atgoffa aelodau mai pwrpas yr adolygiad oedd mapio allan argymhellion o adroddiad Holden i sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori yn nhermau cynnydd o ran y gwasanaeth, a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor QSE fod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion heb eu cwblhau. Ychwanegodd fod diweddariad ar y gwaith codi pryderon wedi'i roi i'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth a bod cynlluniau ar y gweill i ganoli'r broses ymchwilio er mwyn rhoi arolygiaeth gorfforaethol briodol. Byddai'r gweithredoedd hyn hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau hanesyddol a oedd wedi dod i'r amlwg yn adroddiad Holden. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro fod diwydrwydd dyladwy yn hollbwysig, a'i bod yn hyderus y byddai'r adroddiad yn barod ar gyfer cyfarfod y QSE ym mis Ionawr. | |
| **20.126 Cofnodion Drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 24.9.20 am fanwl-gywirdeb**<br><br>**20.126.1** Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod ymateb wedi'i roi erbyn hyn i'r holl gwestiynau unigol a godwyd gan aelodau'r cyhoedd na chawsant eu hateb yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. | |
| **20.127 Diweddariad ar y Mesurau Arbennig**<br><br>**20.127.1** Rhoddodd y Prif Weithredwr Dros Dro ddiweddariad ar lafar. Nododd y byddai'r cymorth ariannol a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r sefydliad feddwl mewn ffordd fwy trawsnewidiol a strategol ac roedd hyn i'w groesawu. Yn nhermau cynnydd yn erbyn y meysydd hynny a oedd yn parhau i fod mewn Mesurau Arbennig, roedd yn teimlo bod y sefydliad wedi gwneud cynnydd. Yn nhermau iechyd meddwl, nododd fod tîm arwain yr uwch adran yn gwneud cynnydd da | |

| | |
|---|---|
| o ran gwella llywodraethu. Diolchodd i gydweithwyr y Cyngor Iechyd Cymuned (CHC) a oedd yn parhau i gefnogi'r Bwrdd o ran gwaith gyda rhanddeiliaid ac ymgysylltu a nododd y gellid dangos dysgu mawr o'r gwaith yn ymwneud â gwasanaethau fasgwlaidd. O ran llywodraethu ac atebolrwydd, adroddodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro wedi bod yn ei swydd am ddeufis a'i fod yn dechrau ymgorffori rhai newidiadau ac i alinio blaenoriaethau o ran cynllun Chwarter 3/4 ac atebolrwydd. Yn nhermau arweinyddiaeth, cadarnhawyd bod y broses recriwtio i swyddi parhaol Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid yn mynd yn ei blaen yn dda, a bod gwaith yn ymwneud â datblygu Strategaeth Glinigol yn symud ymlaen ar garlam yn nhermau datblygu llwybrau. | |
| **20.128 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)**<br><br>**20.128.1 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd** gadarnhau'r rhestr o ychwanegiadau a phethau a ddilëwyd ar Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru a Chofrestr Cymru Gyfan o Glinigwyr Cymeradwy. | |
| **20.129 Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020 ac Adroddiad Chwarter 1**<br><br>**20.129.1** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fod y Pwyllgor QSE yn craffu ar gynnydd o ran iechyd a diogelwch galwedigaethol ym mhob cyfarfod. Cadarnhaodd Cadeirydd y QSE fod dadansoddiad trylwyr o fylchau wedi'i gynnal yn arwain at ddatblygu cynllun gweithredu ond wrth reswm, roedd y pandemig wedi effeithio ar gynnydd. Roedd y Pwyllgor wedi cydnabod bod gorgyffwrdd amlwg rhwng y pandemig, atal heintiau ac iechyd a diogelwch, a'i fod wedi derbyn adroddiad yn ddiweddar ar heintiau Covid-19 yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Er na ellid rhoi sicrwydd cwbl gadarnhaol, teimlai Cadeirydd y QSE fod y sefydliad mewn sefyllfa well o lawer yn nhermau didwylledd ac ymwybyddiaeth o'r materion. Canmolodd Aelod Annibynnol lefel y gwaith a arweiniwyd gan dîm iechyd a diogelwch cymharol fach yn ystod y pandemig a oedd yn hollbwysig o ran sicrhau pob staff yn ddiogel ac yn iach.<br><br>**20.129.2** Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol atgoffa'r Bwrdd fod materion hirsefydlog yn ymwneud â rheoli iechyd a diogelwch y tynnwyd sylw'r Bwrdd atynt ar ddiwedd 2018 a gwnaeth adolygiad sylfaenol argymell y dylid canolbwyntio ar ymagwedd ddiagnostig tuag at sefydlogi'r sefyllfa bresennol. Derbyniodd nad oedd y sefydliad yn cynnig y safonau disgwyliedig uchaf i bob un o'i gleifion, ond roedd y Bwrdd yn fwy ymwybodol o lawer o'r materion ac roedd yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau. Nodwyd bod gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid Undebau Llafur wedi bod yn hollbwysig i'r llwyddiannau hyd yn hyn a bod perthynas adeiladol wedi'i meithrin gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) gyda thryloywder llwyr o ran heintiau Covid-19 sydd i'w hadrodd trwy RIDDOR. Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol hefyd amlygu mai BIPBC oedd yr unig Fwrdd i gynnwys darparu amgylchedd diogel, cadarn ac iach fel un o'r pum blaenoriaeth bennaf yng nghynlluniau Chwarter 3/4. Yn olaf, cyfeiriodd at hysbysiad gwella HSE a oedd wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud â hyfforddiant | |

| | |
|---|---|
| profion ffitio ac roedd camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Achubodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro ar y cyfle i gydnabod y sefyllfa ddigynsail yr oedd y Bwrdd yn gweithredu ynddi, o ran y pandemig, ond rhoddodd sicrwydd i aelodau fod dysgu'n cael ei drosi ar draws y sefydliad.<br><br>**20.129.3** Cafwyd trafodaeth. Nododd y Prif Weithredwr Dros Dro fod cynlluniau ar y gweill i roi cymorth pellach i'r timau iechyd a diogelwch ac y byddai angen buddsoddi ar gyfer y materion amgylcheddol a ddisgrifiwyd er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a bod y sgyrsiau hyn yn parhau ar garlam. Gwnaeth Aelod Annibynnol groesawu'r dadansoddiad bylchau cynhwysfawr a soniodd fod monitro hirdymor yn hanfodol. Cydnabu'r llwybr adrodd hyd at y Pwyllgor QSE ond teimlai y dylid cyfeirio'n amlycach mewn cynlluniau Chwarter 3/4 at y materion a amlinellwyd yn y papur. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y byddai angen ffynonellau lluosog o sicrwydd a bod darpariaeth wedi'i huwchraddio mewn cynlluniau Chwarter 3/4. Awgrymodd hefyd y byddai angen pennu trywyddion clir i leihau niwed mewn cynlluniau ar gyfer 2021-22. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynghylch y sefyllfa bresennol gydag achosion Covid-19 mewn ysbytai, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, yn nhermau'r gweithlu, fod y tebygolrwydd o drosglwyddo'r firws rhwng staff a chleifion yn parhau i fod yn isel iawn ac roedd data ar epidemioleg yn ategu at hyn. Nododd hefyd fod cryn ddysgu wedi dod o achosion yn Wrecsam o safbwynt staff a'i fod wedi cael ei drosglwyddo i safleoedd eraill. Byddai angen pennu pwyntiau sbardun i benderfynu pa bryd y gallai staff asymptomatig gael eu profi. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro fod pob achos claf yn cael ei adolygu'n fanwl er mwyn sicrhau bod modd rhannu dysgu o achosion a chanfod amlder. Roedd y data ar epidemioleg i'w groesawu gan ei fod yn rhoi darlun clir o drosglwyddiadau uniongyrchol a chlystyrau annibynnol. Er bod rhywfaint o drosglwyddiadau'n dal i gael eu gweld, roedd yn glir bod y dystiolaeth a gwersi a ddysgwyd o Wrecsam yn golygu bod camau'n cael eu cymryd i ganfod achosion yn gynharach o lawer. Gwnaeth aelod groesawu'r tryloywder yn yr adroddiad, ond roedd yn teimlo bod rhai cwestiynau heb eu hateb yn dal i fodoli, er enghraifft, pryderon ynghylch rheoli a bod yr holl feysydd gwasanaeth yn ddiffygiol o ran cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Gofynnodd pa wahaniaethau a allai gael eu nodi yn yr adroddiad nesaf i'r Bwrdd ac o fewn y terfyn amser hwnnw. Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol atgoffa aelodau fod diffyg buddsoddi mewn rheoli iechyd a diogelwch dros nifer o flynyddoedd ac mai'r agwedd bresennol oedd canfod blaenoriaethau i fuddsoddi mewn cyd-destun trawsnewidiol. Yn nhermau terfynau amser, cafwyd trafodaethau manwl gyda'r Tîm Gweithredol o ran blaenoriaethu gwariant ac roedd cynlluniau clir yn cael eu hymgorffori i ragolygon ariannol ar gyfer Chwarter 3/4 ac ar gyfer y broses bennu cyllidebau ar gyfer 2021-22. Roedd yn hyderus y gellid gwneud yr achos dros fuddsoddi ond cydnabu rwystr posibl o ran lefel yr arbenigedd y byddai ei angen. O ran adrodd ymhellach, byddai'n disgwyl gweld sgoriau risg is yn dod yn ôl i'r Bwrdd dros Chwarter 3/4. Gwnaeth y Cadeirydd nodi y byddai cynnydd yn erbyn trywyddion yn parhau i gael eu hadrodd i'r Pwyllgor QSE a hyd at lefel y Bwrdd trwy adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor.<br><br>**20.129.4 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd nodi Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (OHS) 2019-2020 ac Adroddiad Chwarter 1 a chefnogi'r argymhellion i'r Tîm OHS. | |

| | |
|---|---|
| **20.130 Staff Nyrsio**<br><br>**20.130.1** Awgrymodd y Cadeirydd, fel eitem gydsyniad ar yr agenda, y gellid derbyn y papur fel yr oedd ond awgrymodd y dylid rhoi datganiad sefyllfa. Roedd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro yn awyddus i gydnabod y gefnogaeth bositif a dderbyniwyd gan y sefydliadau addysg uwch yng ngogledd Cymru, a gwytnwch staff yn nhermau adleoli yn ystod ton gyntaf Covid-19. Cydnabu nad oedd yr un cyfleoedd o reidrwydd o ran rhai grwpiau staff yn yr ail don. Roedd trafodaethau eraill yn yr arfaeth fel datblygu rolau Band 4, ehangu cyfleoedd i unigolion gamu i'r proffesiwn nyrsio a gweithio gydag Addysg a Gwybodaeth Iechyd Cymru ar gyfleoedd rhan-amser. Teimlai nad oedd lens unigol ar gyfer recriwtio ac y byddai ymagwedd lwyddiannus yn golygu bod angen ffocws a buddsoddi. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y cyswllt clir â datblygu strategaeth glinigol gan fod ar y sefydliad angen eglurder o ran yr hyn roedd yn ei wneud i wella recriwtio a chadw staff ac i ganfod modelau gweithlu ar gyfer y dyfodol. Cytunodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod gallu rhoi cyfeiriad gweithredu clir i staff o ran strategaethau clinigol yn allweddol i allu'r Bwrdd i recriwtio.<br><br>**20.130.2 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd Iechyd nodi'r gydymffurfiaeth â'r gofynion penodedig cyfrifiadau ddwywaith y flwyddyn ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 sy'n bodloni gofynion 25B a chefnogi'r adroddiad. | |
| **20.131 Achos Busnes Llawn Ysbyty Brenhinol Cymunedol Alexandra (Gogledd Sir Ddinbych)**<br><br>**20.131.1** Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr achos busnes wedi'i gefnogi gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol sylw at y ffaith fod gwaith papur ategol eang i'r datblygiad ac roedd yn awyddus i gofnodi ei ddiolch i Mr Gareth Evans am ei waith fel Cyfarwyddwr Prosiect. Tynnodd sylw aelodau hefyd at bwynt yn ymwneud â manwl-gywirdeb yn y ddogfen asesu effaiith cydraddoldeb gan fod enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi'i nodi'n anghywir.<br><br>**20.131.2** Cafwyd trafodaeth. Cyfeiriodd aelod at brosiectau cyfalaf sylweddol eraill lle'r oedd materion rheoli cysylltiedig, ac awgrymodd y dylai'r sefydliad ymdrechu i sicrhau bod yr adeilad penodol hwnnw yn cael ei droi'n brosiect enghreifftiol a bod y buddion uchaf posibl yn cael eu gwireddu. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol fod elfen o gymryd saib ac edrych yn ôl ynghlwm wrth y prosiect a bod lefel uchel o hyder o ran partner y gadwyn o ddewis. Gofynnwyd am sicrwydd gan yr ymgynghorwyr cost i alluogi swyddogion i deimlo'n hyderus ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Nododd fod rhai costau wedi'u hail-seilio ar werthoedd sector cyhoeddus a lwfansau ychwanegol yn ymwneud â chyflwr strwythur yr adeilad. O ran monitro ar gyfer y dyfodol, bydd gwaith Bwrdd y Rhaglen yn parhau. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod trefniadau sydd wedi'u datblygu'n dda i gwblhau adolygiadau porth gan ymgorffori dysgu o Fyrddau Iechyd eraill a fyddai hefyd yn helpu i wireddu buddion. | |

| | |
|---|---|
| **20.131.3** Cadarnhaodd Cadeirydd y SRG fod y SRG wedi gweld yr achos busnes mewn cyfarfod yn ddiweddar a bod pwynt o bryder wedi'i godi ynghylch cymeradwyaeth gynllunio a pha un a fyddai hyn yn cael ei gyflawni mewn da bryd cyn etholiadau 2021. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol fod sgyrsiau wedi'u cynnal gyda swyddogion cynllunio Awdurdodau Lleol ac roeddent yn teimlo y byddent mewn sefyllfa i gymeradwyo'r achos busnes trwy lwybrau cymeradwyo swyddogion gyda chafeat yn ymwneud â chynnwys CADW oherwydd y statws fel adeilad rhestredig. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch cydgysylltu prosiectau cyfalaf amrywiol fel rhan o strategaeth ystadau ehangach, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.<br><br>**20.131.4 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd gymeradwyo'r Achos Busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. | |
| **20.132 Cynlluniau Chwarter 3 a Chwarter 4**<br><br>**20.132.1** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod y cynllun Chwarter 3 a Chwarter 4 wedi'i drafod yn un o Weithdai'r Bwrdd yn ddiweddar a'i fod bellach yn cael ei gyflwyno'n gyhoeddus i geisio cefnogaeth ffurfiol y Bwrdd. Cadarnhaodd ein bod yn aros am adborth ar y cynlluniau gan Lywodraeth Cymru. Atgoffwyd y Bwrdd fod nifer o gynlluniau ategol yn sail i'r gwaith, fel y rhai'n ymwneud â chartrefi gofal, atal Covid-19 ac ymateb iddo, brechu torfol a pharatoadau tymhorol / paratoi ar gyfer y gaeaf. Roedd yr un olaf wedi cael ei rannu fel atodiad i'r eitem ar yr agenda.<br><br>**20.132.2** Diolchodd y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro i gydweithwyr a phartneriaid am eu cyfraniadau gwerthfawr at ddatblygu tri chynllun cymunedol lleol a oedd yn ategu at y cynllun cyffredinol. Dangosodd fod gwersi wedi'u dysgu ynghylch modelu galw ac ymchwydd ac roedd ymdrechion wedi'u gwneud i gryfhau elfennau o ofal cychwynnol ac iechyd meddwl yn benodol.<br><br>**20.132.3** Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am y papur a chadarnhaodd fod y cynlluniau Chwarter a Chwarter 4 wedi bod yn destun trafodaethau hirfaith. Cafwyd trafodaeth. Mewn ymateb i gwestiwn mewn perthynas â rhoi Fframwaith Cyflenwi Ansawdd yr Adran Achosion Brys, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad mai bwriad yr ymagwedd Cymru Gyfan hon oedd amlinellu sut olwg ddylai fod ar ofal brys. Ychwanegodd y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro fod awydd amlwg i ailosod y rhaglen gwella gofal heb ei drefnu er mwyn caniatáu cyflwyno datrysiad mwy strategol. Gwnaeth y Cadeirydd groesawu'r ymagwedd hon ac roedd yn teimlo y byddai'n cynnig modd o wella hyder mewn gofal heb ei drefnu. Teimlai'r Is-gadeirydd fod y naratif yn y cynllun yn rhoi mwy o gyd-destun a chroesawodd y cysylltiadau cliriach â blaenoriaethau strategol ehangach, ond, byddai'n awyddus i weld gweithredoedd fel rhai 'CAMPUS/SMART' er mwyn sicrhau bod modd monitro cynnydd yn haws.<br><br>**20.132.4 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd dderbyn Cynllun Chwarter 3 a Chwarter 4 a'i gymeradwyo. | |

| | |
|---|---|
| | |
| **20.147 Datrysiad Dros Dro Llawdriniaeth â Chymorth Robot (RAS) i Ogledd Cymru**<br><br>**20.147.1** Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad sylw at y ffaith mai nod y papur oedd unioni anghydraddoldeb o ran darpariaeth gwasanaeth yng ngogledd Cymru. Dywedodd y byddai RAS yn cyflwyno buddion sylweddol o ran manwl-gywirdeb, lleihad mewn hyd arosiadau a chanlyniadau gwell i gleifion. Roedd ymrwymiad y Bwrdd i ddatblygu RAS wedi cyfrannu at y gallu i recriwtio tri meddyg ymgynghorol arall. Cafodd aelodau wybod bod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi cefnogi'r achos busnes ond gofynnodd i'r cyfrifiad ar y brydles gael ei brofi.<br><br>**20.147.2** Cafwyd trafodaeth. Nododd aelod fod y papur yn sôn bod y datblygiad yn cael ei yrru a'i gefnogi'n glinigol, ac roedd yn gobeithio y gallai fod yn enghraifft dda wrth symud ymlaen mewn adrannau eraill. Teimlai'r Prif Weithredwr Dros Dro ei bod yn bwysig nodi bod cydweithwyr clinigol wedi cael cyfle i gyfrannu a'u bod wedi gyrru'r broses o ddatblygu'r achos busnes. Teimlai'r Cadeirydd y byddai datblygiadau fel RAS yn gwella gallu recriwtio'r sefydliad ymhellach. Ychwanegodd Aelod Annibynnol y byddai'r datblygiad hwn sydd i'w groesawu yng ngogledd Cymru yn helpu'r Bwrdd i ddangos tystiolaeth ei fod yn cyflawni ar ei addewidion, a'i fod yn ategu at gynnig gofal lleol i gleifion yng ngogledd Cymru.<br><br>**20.147.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd** wneud y canlynol:<br>1.Cefnogi'r cynlluniau sydd wedi cael eu disgrifio yn yr achos busnes.<br>2.Cefnogi symud tuag at sicrhau trefniant trwy brydles (saith mlynedd gyda'r opsiwn i ddod allan ohono ar ddiwedd blwyddyn 3), i dechnoleg Lawdriniaeth â Chymorth Robot (RAS) gael ei darparu yn Ysbyty Gwynedd.<br>3. Cefnogi y bydd RAS yn cefnogi gwasanaethau wroleg yn y lle cyntaf, gyda'r bwriad o wella cyfleoedd o ran arbenigeddau eraill maes o law.<br>4. Cefnogi'r ymrwymiad i raglen RAS Cymru Gyfan a sicrhau bod y trefniant trwy brydles yn cael ei reoli'n unol â chynllun cyflwyno rhaglen Cymru Gyfan. | |
| **20.148 Achos Busnes Refeniw Symffoni PBC / System Genedlaethol Adrannau Achosion Brys Cymru**<br><br>**20.148.1** Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol sylw at yr heriau'n ymwneud â sicrhau bod amseru'r achos busnes yn cael ei lunio'n gywir. Nododd fod Adrannau Achosion Brys ar hyn o bryd yn gweithio gyda lefel amhriodol o systemau llaw a phapur a bod lleihau hyn yn hollbwysig i wella canlyniadau clinigol a rheoli llifoedd cleifion mewn Adrannau Achosion Brys. Awgrymodd fod y gallu i symud gwybodaeth am gleifion mewn amser real o unedau mân anafiadau, i Adran Achosion Brys ac i leoliadau llym eraill yn hanfodol. Dywedodd Aelod Annibynnol y byddai datblygu'r achos busnes yn hollbwysig o ran sicrhau systemau gwybodaeth sy'n cefnogi gofal cleifion gwell. Holodd aelod arall ynghylch mesur arbedion ac effeithlonrwydd.  Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol | |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol fod yr achos busnes yn glir ac yn dryloyw yn nhermau costau ond nad oedd yr un ymagwedd gynhwysfawr wedi'i mabwysiadu eto o ran arbedion, ond gallai gadarnhau na fyddai'r achos busnes yn niwtral o ran refeniw.<br><br>**20.148.2 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd gymeradwyo Achos Busnes Refeniw Symffoni PBC / WEDS Cenedlaethol er mwyn caniatáu rhoi Symffoni PBC ar waith yn raddol yn Adrannau Achosion Brys y Gorllewin a'r Dwyrain a'r holl Unedau Mân Anafiadau (MIU) yn PBC, yn barod ar gyfer y datrysiad WEDS cwbl integredig (sy'n cynnwys Adran Achosion Brys Ardal y Canol). | |
| **20.133 Adroddiad Cynnydd Monitro'r Cynllun Blynyddol**<br><br>**20.133.1** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y papur a dangosodd fod swyddogion yn awyddus i weld p'un a ellid dod â'r adroddiad hwn ynghyd â'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad i gryfhau'r cysylltiad rhwng cynlluniau'r Bwrdd, ei risgiau, perfformiad a chanlyniadau gan hefyd fyfyrio ynghylch yr angen i'r Tîm Gweithredol barhau i graffu ar adroddiadau perfformiad cyn cyfarfodyddd y Bwrdd a Phwyllgorau.<br><br>**20.133.2** Holodd Aelod Annibynnol p'un a allai gweladwyedd o ran cynnydd gyda nifer o weithredoedd ambr gael eu colli pe na chaent eu cynnwys mewn adroddiadau dilynol. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad sicrwydd i aelodau y byddai'r gweithredoedd yn cael eu cynnal, ond, ni fyddai pob un ohonynt yn llifo i mewn i gynlluniau Chwarter 3 a Chwarter 4. Roedd aelod arall yn teimlo na ddylid colli'r gweithredoedd coch hynny a gafodd eu gohirio yn ystod y pandemig ychwaith a bod angen gorgyffwrdd â chynlluniau Chwarter 3 a Chwarter 4. Awgrymwyd y dylai adroddiad i gael pen y mwdwl ar weithredoedd ambr a choch gael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (SPPH) ym mis Rhagfyr.<br><br>**20.133.3** Cafwyd trafodaeth ynghylch datblygu strategaeth glinigol y sefydliad a chadarnhawyd y câi ymagwedd dri dimensiwn ei mabwysiadu (h.y.; darganfod, cynllunio a chyflwyno) wedi'u halinio ag egwyddorion 'Cymru Iachach'. Holodd y Cadeirydd ynghylch y terfyn amser a rhagwelodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y byddai'r broses i gytuno ar strategaeth glinigol wedi dod i ben erbyn diwedd Mawrth 2021 ac y byddai hyn yn caniatáu i'r Prif Weithredwr newydd wneud cyfraniad hollbwysig. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Gweithredol Dros Dro fod ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ac y dylai fod mewn sefyllfa i roi diweddariad i'r Bwrdd ym mis Ionawr. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i wybod pryd fyddai'r Bwrdd yn gweld fersiwn drafft o'r strategaeth glinigol a nododd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai angen iddi fyfyrio gyda chydweithwyr ac i gadarnhau hyn y tu allan i'r cyfarfod, ond rhoddodd sicrwydd i'r aelodau fod llawer o elfennau ategol i'r strategaeth glinigol eisoes yn eu lle.<br><br>**20.133.4 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad. | MW<br><br>GH |
| **20.134 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad** | |

| | |
|---|---|
| **20.134.1** Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad atgoffa aelodau bod elfennau perthnasol o'r adroddiad wedi cael eu craffu ymlaen llaw yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor QSE. Tynnodd sylw at wall ar dudalen 20 a oedd yn nodi bod 52 o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal mewn iechyd meddwl a chadarnhaodd y dylai fod wedi darllen fel 15. Tynnodd sylw at themâu allweddol o'r adroddiad gan fod Adrannau Achosion Brys yn parhau i weld llai o achosion; roedd derbyniadau nad ydynt yn ddewisol yn gymharol sefydlog ac yn agosach o lawer ar hyn o bryd i lefelau cyn Covid; pwysau ar y sector gofal yn gysylltiedig â statws gwelyau a oedd yn dderbyniol ar y funud; roedd lleihad cyffredinol o ran oedi wrth drosglwyddo gofal; oherwydd y pandemig, roedd capasiti a oedd ar gael yn gyffredinol yn is ac roedd arosiadau hir i'w gweld wrth drosglwyddo ambiwlansys. O ran gofal wedi'i gynllunio, roedd cyfeiriadau brys wedi dychwelyd i lefel cyn y pandemig er bod cyfeiriadau rheolaidd yn parhau i fod o dan bwysau. Roedd parhad o ran cynnydd mewn niferoedd a oedd yn aros a chyfran y cleifion a oedd yn aros cryn amser a oedd yn tanlinellu pwysigrwydd y gwaith ynghylch canolfan triniaeth ddiagnostig. Ar wahân i radioleg, roedd diagnosteg yn perfformio'n gymharol dda ar hyn o bryd..<br><br>**20.134.2** Cafwyd trafodaeth. Holodd Aelod Annibynnol ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf o ran nifer y plant a'r bobl ifanc a oedd yn aros yn hirach na 26 wythnos am asesiad niwroddatblygiadol. Adroddwyd bod yr asesiadau hyn yn dibynnu'n bennaf ar apwyntiadau wyneb yn wyneb ond eu bod yn cael eu cynnal fel arfer mewn lleoliad addysg, a oedd yn ychwanegu cymhlethdod pellach o ran gweithio o fewn cyfyngiadau asesiadau risg Covid-19. Holodd yr Is-gadeirydd pam yr oedd targedau'r Mesur Iechyd Meddwl ar dudalen 20 yr adroddiad ar gyfer mis Awst tra'r oedd yr holl ddata arall ar gyfer mis Medi. Ymrwymodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad a Chyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus i wirio'r cefndir i hyn ac adrodd yn ôl y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>**20.134.3** Teimlai'r Cadeirydd fod perfformiad gofal wedi'i gynllunio ar gyfer gofal llygaid a diagnosteg i'w gweld yn allanolynnau arwyddocaol. Amlinellodd Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd ystod o weithredoedd a oedd yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â pherfformiad diagnostig, gan gynnwys cymysgedd o ffynonellau mewnol a chyflwyno Mentrau Rhestrau Aros (WLIs). Cadarnhaodd hefyd fod haenau risg wedi'u pennu ar gyfer yr holl gleifion radioleg. Cododd Aelod Annibynnol bryder ynghylch gwytnwch staff PBC ac effaith WLIs. Datganodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod datrysiadau byrdymor ar y gweill ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a bod y Tîm Gweithredol yn ymrwymedig i barhau i gynnig llawdriniaeth wedi'i chynllunio, ond, roedd bob amser risg y byddai angen israddio hyn gan ddibynnu ar hynt y pandemig ac ymchwydd yn y dyfodol. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro at gynlluniau gwella a oedd wedi cael eu cefnogi ar gyfer safle YGC a theimlai fod y ffocws cywir wedi'i gyflawni yma.<br><br>**20.134.4** O ystyried y pryderon ynghylch perfformiad gofal wedi'i gynllunio yn gyffredinol, gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro baratoi nodyn briffio.<br><br>**20.134.5 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd Iechyd dderbyn yr adroddiad. | MW TO<br><br>GMc |

| | |
|---|---|
| **20.141 Dyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Blaenoriaethau Cydraddoldeb Presennol / Effaith Covid -**<br>*[Newidiwyd trefn yr Agenda ar ddisgresiwn y Cadeirydd. Ymunodd y Parch. Ruth Coombs a Sally Thomas â'r cyfarfod]*<br><br>**20.141.1** Diolchodd y Parch. Coombs i'r Bwrdd am y cyfle i gyfarfod â nhw i drafod effaith y Coronafeirws o ran cydraddoldeb. Nododd ei bod yn hysbys fod mwy o bobl yng Nghymru wedi'u halinio â lles cymdeithasol, roedd gan Gymru y cyfraddau uchaf o ran tlodi yn y DU ac roedd niferoedd isel o bobl anabl mewn gwaith yng Nghymru. Roedd y ffactorau hyn yn effeithio ar addysgu, rhagolygon gwaith, tai, y gallu i gyfrannu at gymdeithas a'r gallu i ymgysylltu ag eraill. Yn ogystal â'r heriau presennol hyn, roedd y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar y rheiny o gefndiroedd difreintiedig. Gwnaeth y Parch. Coombs atgoffa'r Bwrdd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith fel rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb o fis Mawrth 2021 a'r effaith uniongyrchol i Fyrddau Iechyd fyddai sicrhau bod unrhyw benderfyniadau strategol yn cael eu hystyried trwy'r lens ychwanegol hwn. Awgrymodd y dylai'r Bwrdd ddechrau gweithredu ar unwaith yn ysbryd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) yng ngoleuni Covid-19 er mwyn myfyrio ar yr hyn a oedd wedi newid. Soniodd fod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) wedi blaenoriaethu ei gynllun busnes ei hun yng ngoleuni Covid-19. Tynnodd sylw at gyhoeddi cylch gorchwyl yn ddiweddar ar gyfer ymchwiliad i'r effaith anghymesur ar weithwyr â chyflogau isel mewn iechyd a gofal cymdeithasol o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), a amlinellodd ffyrdd y gallai PBC gefnogi'r ymchwiliad. Rhoddodd sicrwydd i aelodau y gallai staff ymgysylltu'n ddiogel ac yn gyfrinachol â'r ymchwilliad. Cadarnhaodd y Parch. Coombs fod EHRC hefyd yn cynnal asesiad Adran 31 o bolisïau amgylcheddau gelyniaethus yn y Swyddfa Gartref, a'i bod yn awyddus i ddylanwadu ar lywodraethau'r DU yn ehangach er mwyn codi proffil cydraddoldeb hiliol ym mhob agwedd ar fywyd. Yn ogystal â'r ymchwiliad ar hil, roedd gwaith â ffocws penodol hefyd ar ofal cymdeithasol yn enwedig o ran sicrhau bod modd cael cydbwysedd gwell yn nhermau hawliau dynol. Nododd fod cyfyngiadau cyffredinol a gyflwynwyd i ymateb i brosesau'r pandemig yn golygu trin pawb yn yr un ffordd a bod hynny wedi achosi anghydraddoldeb. Nododd y Parch. Coombs yr angen i fod yn ystwyth, nad oedd yn hawdd i sefydliadau mawr, a thynnodd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â phobl er mwyn eu cynnwys mewn prosesau penderfynu canolog. Gorffennodd trwy ailbwysleisio'r angen i ystyried effaith unrhyw benderfyniadau strategol ar grwpiau.<br><br>**20.141.2** Croesawodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y cyfle i gael y sgwrs hon a chytunodd fod cryfhau asesiadau o effaith cydraddoldeb yn yr ystyr ehangach, cyn gwneud penderfyniadau allweddol, yn hanfodol. Cadarnhaodd Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod y SEP wedi cael ei adolygu ac roedd ffocws ychwanegol wedi'i gynnwys yn nhermau cydraddoldeb hiliol fel rhan o ddysgu o Covid-19. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y dylai fod awydd yn y tymor hwy i wella canlyniadau'n ehangach na Covid-19 - er enghraifft, adnewyddu asesiadau anghenion trwy'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol. Nododd y Parch. Coombs fod EHRC yn gweithio gyda phartneriaid i alinio'r darnau amrywiol o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol gan fod themâu clir sy'n gorgyffwrdd yno er bod hynny'n perthyn yn amlwg i'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cyfeiriodd at fframwaith mesur EHRC fel offeryn defnyddiol i ganfod anghydraddoldeb ac er mwyn caniatáu datblygu blaenoriaethau cyffredin. Soniodd yr | |

| | |
|---|---|
| Is-gadeirydd am yr angen i edrych o'r newydd ar Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng ngoleuni'r pandemig, a theimlai ei bod yn amserol cymryd saib ac i fyfyrio ynghylch pob un o strategaethau'r Bwrdd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>**20.141.3** Diolchodd y Cadeirydd i'r Parch. Coombs am fynychu a nododd ei fod yn edrych ymlaen at sgyrsiau pellach yn y dyfodol.<br><br>*[Gadawodd y Parch. Coombs a Sally Thomas y cyfarfod]* | |
| **20.135 Adroddiad Cyllid M5**<br><br>**20.135.1 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd nodi'r adroddiad | |
| **20.136 Adroddiad Cyllid M6**<br><br>**20.136.1** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro y papur ac amlygodd mai'r prif wahaniaeth ers yr adroddiad M5 oedd y cyllid cynaliadwyedd ychwanegol o £89.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn golygu bod sefyllfa ragolygol y Bwrdd Iechyd bellach yn unol â'r sefyllfa arfaethedig. Nododd fod y datganiad o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei adrodd cyn i'r Gweinidog wneud y cyhoeddiad i'w groesawu ynghylch cymorth strategol. Roedd y cyllid a dderbyniwyd bellach wedi'i gadarnhau ar gyfer nifer o raglenni gan gynnwys brechiadau rhag y ffliw a Covid-19; profion Covid-19 fel rhan o 'Profi, Olrhain, Diogelu' (TTP); comisynu/datgomisiynu'r tri ysbyty dros dro; costau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a chymorth i Ysbyty Maelor Wrecsam ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Roedd effaith yr ymateb i Covid-19 wedi golygu nad oedd y sefydliad wedi gallu gwneud fawr ddim cynnydd ar yr cynllun arbedion ar gyfer eleni ac roedd hyn bellach yn flaenoriaeth glir i wella perfformiad ariannol trwy gyflymu'r rhaglen gofal iechyd ar sail gwerthoedd. Roedd y Bwrdd yn adrodd ar sicrhau arbedion o £5.5m ym M6; £0.2m o hyn yn ystod y mis a rhagolwg o £11.1m ar gyfer cynlluniau a oedd eisoes yn cael eu cyflwyno, gan graffu ar yr holl gyfleoedd yn yr arfaeth sy'n hafal i ryw £3.9m arall. Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro sylw aelodau at y targedau allweddol a amlinellir ar dudalen dau yr adroddiad, ac roedd yn falch o adrodd bod y sefydliad bellach yn cyflawni ei darged terfyn ar gyfer adnoddau refeniw, yn talu 95% o gyflenwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn telerau polisi tâl y sector cyhoeddus, a'i fod yn cyflawni ei darged am arian parod. Roedd y Gweinidog wedi bod yn glir am y disgwyliad i ddefnyddio rhywfaint o'r arian trawsnewid i symud ymlaen wrth ddatblygu Cynllun Integredig yn y Tymor Canolig. Gwnaeth y papur gadarnhau hefyd fod rhyw £152.8m o gyllid ar gyfer Covid-19 wedi'i ymgorffori yn nyraniad adnoddau'r Bwrdd. Ni ddylid tanbrisio effaith y pandemig ar berfformiad ariannol ac erbyn hyn, bydd angen i'r sefydliad ystyried methiant i gyflawni arbedion, a cholli incwm gan gleifion o Loegr o fewn y rhwydwaith. Byddai angen i'r effaith hon gael ei gosod yn erbyn tanwariant gan gynnwys cymryd saib o ran y rhaglen gofal wedi'i gynllunio yn ystod y don gyntaf. Yn olaf, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro fod cynlluniau Chwarter 3/4 bellach wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'u bod yn canolbwyntio ar y gweithgarwch cynyddol yr oedd y Bwrdd yn ceisio ei roi ar waith dros y chwe mis nesaf a'r pwyslais ar y cynllun dwysáu ar gyfer y gaeaf. | |

| | |
|---|---|
| **20.136.2** Cafwyd trafodaeth. Holodd Aelod Annibynnol beth oedd y gost amcangyfrifedig yn ymwneud â cholli trefniadau trawsffiniol, a pha bryd yr oedd contractau diwygiedig yn debygol o ddechrau. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro fod rhyw £32m o gostau wedi codi'n gysylltiedig â chontractau ar gyfer darparwyr o Loegr, a rhyw £20.5m oedd prisiad y gweithgarwch felly roeddem yn tangyflawni i bob pwrpas. Yn ystod y tri mis cyntaf, roedd y bwlch rhwng yr hyn yr oedd y sefydliad yn ei dalu a'r gweithgarwch a oedd yn cael ei gyflawni ar ryw £2.5m bob mis, a gwnaeth hyn leihau i ryw £1m erbyn M6. O ran trefniadau ar gyfer contractau bloc, roedd ymgysylltu parhaus â GIG Cymru ac roedd y trefniadau diwygiedig yn cael eu trafod gan ddisgwyl cytundeb yn fuan a disgwylliad y byddai'n cael ei ôl-ddyddio. Teimlai Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ei bod yn werth nodi bod y contractau wedi'u hariannu i bob pwrpas trwy arian cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad yn uniongyrchol i Covid-19. Nododd y Cadeirydd fod nifer o Uwch Adrannau'n adrodd gorwariant ar wariant arferol nad yw'n ymwneud â Covid ar yr un pryd â hawlio arbedion, a gofynnodd p'un a oedd hyn yn arwain at gwestiynau ynghylch gafael a rheolaeth a dulliau rheoli ariannol. Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro awgrymu y byddai llawer o hyn yn ymwneud â thangyflawni yn nhermau arbedion a chynigiodd wneud darn o waith i sicrhau cydbwysedd yn hyn o beth o ran pa arbedion a oedd wedi'u cyflawni gan Uwch Adrannau a pha un a oeddent yn gyson ar draws Uwch Adrannau. Nododd y Cadeirydd y byddai hyn o gymorth. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y gellid dehongli cyhoeddiad y Gweinidog fel un a oedd wedi datrys heriau ariannol y Bwrdd ac y gellid gweld bod cyflawni arbedion yn flaenoriaeth isel gan Uwch Adrannau. Datganodd fod yn rhaid i hyn gael ei osgoi gan fod cytundeb gyda Llywodraeth Cymru y byddai cyfleoedd i allu ailfuddsoddi o ran yr arbedion hynny. Teimlai Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro y dylid gweld dyrannu arian ychwanegol yn arwydd o hyder yn y sefydliad ond bod angen i'r Bwrdd fod yn dactegol o ran sut roedd yn cael yr arian yn cael ei wario i fodloni'r pum blaenoriaeth allweddol ac i wthio'r agenda trawsnewid yn ei flaen. Cyfeiriodd at sgyrsiau yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ynglŷn â rhaglen 'buddsoddi i arbed' a mabwysiadu gofal iechyd ar sail gwerthoedd a fyddai'n ategu symud tuag at gynllun ariannol mwy cynaliadwy ar gyfer y sefydliad.<br><br>**20.136.3 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd nodi'r adroddiad | SH |
| **20.137 Adroddiadau Sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor a'r Grŵp Cynghorol**<br><br>**20.137.1 Pwyllgor Archwilio 17.9.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd, gan dynnu sylw at y materion hynny lle'r oedd angen eu huwchgyfeirio at y Bwrdd a chafodd y rhain eu nodi.<br><br>**20.137.2 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 30.9.20 a 29.10.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd, gan dynnu sylw at y materion hynny lle'r oedd angen eu huwchgyfeirio at y Bwrdd a chafodd y rhain eu nodi. O ran datblygu Canolfan Ddiagnostig a Thriniaeth (DTC), ychwanegodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Prif Weithredwr Dros Dro mewn cysylltiad agos â'r Uned Gyflenwi ar y gwaith hwn a chynlluniau ehangach ar gyfer gofal heb ei drefnu.<br><br>**20.137.3 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 10.9.20** | |

| | |
|---|---|
| Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd a thynnodd sylw fod y risg allweddol a amlinellwyd yn yr adroddiad yn ymwneud ag argaeledd cronfeydd cyffredinol wedi'i datrys erbyn hyn, ac felly gallai ceisiadau barhau am gronfeydd elusennol.<br><br>**20.137.4 Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl 19.10.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd, gan dynnu sylw at y materion hynny lle'r oedd angen eu huwchgyfeirio at y Bwrdd a chafodd y rhain eu nodi.<br><br>**20.137.5 Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth 20.7.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd a gafodd ei nodi.<br><br>**20.137.6 Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth 17.8.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd a gafodd ei nodi.<br><br>**20.137.7 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 1.10.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd, gan dynnu sylw at y materion hynny lle'r oedd angen eu huwchgyfeirio at y Bwrdd a chafodd y rhain eu nodi.<br><br>**20.137.8 Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth 25.9.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad sicrwydd a chafodd ei nodi. Gofynnodd am ddiweddariad ar y risg a nodwyd ynghylch effaith Canolfan Ddata Blaenafon ar brosiect System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol ei fod yn cyfarfod â'r Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yr wythnos ganlynol ac y byddai'n adrodd yn ôl wrth y Tîm Gweithredol.<br><br>**20.137.9 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) 28.9.20**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y SRG yr adroddiad, gan dynnu sylw at y materion hynny a amlinellwyd yn adran 'cyngor allweddol ac adborth i'r Bwrdd' a chafodd y rhain eu nodi. Gofynnwyd yn benodol i'r Bwrdd gefnogi'r cynnig i gyfethol aelod ychwanegol (Clare Budden) gyda'r bwriad i gynllunio'n olynol ar gyfer rôl y Cadeirydd ar ôl i gyfnod swydd Mr Williams ddod i ben ym mis Mehefin 2021. Cytunwyd ar hyn. Nododd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd y cyfeiriad yn yr adroddiad at frechu a gofynnodd i Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus roi diweddariad. Nododd fod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr unigolion dros 65 oed sy'n cael eu brechu rhag y ffliw, ond roedd gwaith pellach i'w wneud i gynyddu faint o unigolion o dan 65 oed sy'n manteisio arno mewn grwpiau sydd mewn perygl. Roedd dros 14,000 o staff wedi'u brechu erbyn hyn a gellid gweld gwelliant o ran y sawl a oedd yn manteisio arno ar draws ystod o Uwch Adrannau. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fod sesiwn ddysgu arfaethedig yn ymwneud â negeseuon a gwersi o raglen y ffliw y gellid ei chymhwyso i raglen frechu rhag Covid-19.<br>**20.137.10 Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol**<br>Cyflwynodd Cadeirydd yr HPF yr adroddiad, gan dynnu sylw at y materion hynny a amlinellwyd yn adran 'cyngor allweddol ac adborth i'r Bwrdd' a chafodd y rhain eu nodi. | CS |

| | |
|---|---|
| O ran y pwyntiau a wnaed ynghylch capasiti brechwyr, byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol yn cefnogi cyfraniad ehangach gan gontractwyr gofal cychwynnol.<br><br>**20.135.11 Fforwm Partneriaeth Leol 20.10.20**<br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br>*[Gadawodd Mr A Thomas y cyfarfod]* | |
| **20.138 Integreiddio a Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn ddiogel.**<br><br>**20.138.1** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y papur a oedd yn amlinellu uchafbwyntiau'n ymwneud ag integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl yn ddiogel er mwyn cynnig y gofal gorau posibl i gleifion. Cadarnhaodd y byddai gwaith trawsnewid gyda phartneriaid yn hollbwysig a bod yr Uwch Adran yn ymwybodol iawn o'r broses ymgysylltu trwyadl y byddai angen ymgymryd â hi gyda staff. Nodwyd bod adroddiad sicrwydd gan yr Uwch Adran wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor QSE ac roedd disgwyl i ddiweddariad pellach fod yn barod ym mis Ionawr 2021. Teimlai Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod yr Uwch Adran bellach yn eglurach o lawer o ran ei blaenoriaethau.<br><br>**20.138.2** Cafwyd trafodaeth. Holodd Aelod Annibynnol ynghylch y sefyllfa bresennol o ran swyddi gwag staff ac ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod sefyllfa arweinyddiaeth yn gryfach o lawer gan fod rhai wedi dychwelyd i'r gwaith, ond roedd angen edrych o'r newydd ar sefydlu staff yn yr Uwch Adran. Croesawodd yr Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (Gwasanaethau Cymdeithasol) y newidiadau a'r gwelliannau yn yr Uwch Adran a phwysleisiodd yr angen i weithio mewn partneriaeth ar draws pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Nododd y Cadeirydd fod y Cyngor Iechyd Cymuned wedi mynegi barn bositif yn ddiweddar ar yr effaith gynnar yr oedd arweinyddiaeth newydd yn ei gwneud yn yr Uwch Adran a'i fod wedi cadarnhau ymrwymiad parhaus i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn gwneud gwelliannau pellach ym maes iechyd meddwl. Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus groesawu'r pecyn cymorth ariannol sylweddol a oedd wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer iechyd meddwl a fyddai'n cynnig cyfleoedd cyffrous.<br><br>**20.138.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd** nodi’r canlynol:<br>1. y capasiti uwch arwain ychwanegol i Uwch Adran MHLD;<br>2. y gwaith parhaus penodol ar waith llwybrau clinigol i ategu at ymagwedd fwy integredig tuag at gyflwyno gwasanaethau;<br>3. lefel y gwaith a wneir i ailsefydlu ymgysylltu â staff, defnyddwyr a rhanddeiliaid allweddol;<br>4. y Cyllid Trawsnewid ychwanegol sy'n cael ei ddyrannu i'r Uwch Adran MHLD; a<br>5. y cynlluniau i adfer a gwella Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymunedol er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn derbyn gofal yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. | |

| | |
|---|---|
| **20.139 Y Diweddaraf ar Ofal Cychwynnol : Ymateb i Bandemig Covid-19**<br><br>**20.139.1** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol y papur ac amlinellodd y prif bwyntiau. Yn gyntaf, roedd yn awyddus i gydnabod yr heriau aruthrol mewn gofal cychwynnol ac er bod y bobl â'r salwch gwaethaf yn yr ysbyty ar y cyfan, roedd y rhan helaethaf o bobl a oedd wedi cael diagnosis Covid-19 yn derbyn gofal mewn lleoliad cymunedol. Roedd cymhlethdodau ychwanegol gan nad oedd ystad gofal cychwynnol wedi'i baratoi ar gyfer Covid-19. Yn ail, nododd yr eithafion cyferbyniol yn ymwneud â sut roedd gofal cychwynnol yn manteisio ar dechnoleg a bod angen sicrhau cydbwysedd yn hyn o beth. Yn olaf, teimlai y dylai pawb geisio chwalu'r myth nad oedd gwasanaethau gofal cychwynnol ar gael yn ystod y pandemig, gan nad oedd sail i hynny o gwbl, ond hefyd i dynnu sylw bod gofal cychwynnol yn parhau i gynnwys pob un o'r pedwar grŵp o gontractwyr annibynnol.<br><br>*[Gadawodd Mr Ff Williams y cyfarfod]*<br><br>**20.139.2** Cafwyd trafodaeth. Awgrymodd Aelod Annibynnol y byddai ôl-groniad o ymgynghoriadau mewn gofal cychwynnol. Cytunodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol y byddai wedi bod cohort o gleifion nad oeddent wedi gweld eu clinigwr gofal cychwynnol yn ystod ton gyntaf y pandemig, ond roedd yn obeithiol bod pobl yn fwy hyderus i ofyn am ofal erbyn hyn. Teimlai y byddai cryn amser cyn i ofal deintyddol rheolaidd yn benodol ddychwelyd at lefelau cyn Covid. Mewn ymateb i gwestiwn am y cymorth sydd ar gael i staff gofal cychwynnol, cadarnhawyd bod staff Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol eisoes yn manteisio ar wasanaethau iechyd a lles a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, ac roedd gan nifer o gontractwyr elfennau darpariaeth breifat ar waith. Holodd y Cadeirydd ynghylch y darlun cyfatebol yn nhermau ysbytai cymunedol a beth oedd cynlluniau'r Bwrdd ar eu cyfer, a pha un a ddylid defnyddio rhywfaint o'r dyraniad i gyfuno gwasanaethau cychwynnol a chymunedol a fyddai'n helpu gyda llwybrau. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol, cyn y pandemig bod ei gydweithwyr Gweithredol ar draws Cymru wedi nodi dymuniad i ddeall swyddogaeth ysbytai cymunedol yn well, lle gallent gyfrannu orau at ofal iechyd, a darpariaeth ysbyty cymunedol o ba faint oedd yn briodol ochr yn ochr â gwasanaethau cymunedol eraill. Cadarnhaodd fod gwaith gyda LIC yn parhau yn hyn o beth a bod pob ymdrech wedi'i gwneud i gynnal momentwm gwasanaethau cymunedol gwelyau Camu i Fyny / Camu i Lawr trwy gydol y pandemig. O ran lle y dylid lleoli adnoddau, byddai'n cefnogi ymagwedd gofal iechyd ar sail gwerthoedd.<br><br>**20.139.3 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd** nodi:<br>1. darpariaeth gwasanaethau ar draws gofal cychwynnol yn ystod y pandemig a'r gwaith sylweddol a wneir gan yr holl gontractwyr;<br>2. rhoi'r 'cyfnod ambr' ar waith yn barhaus ar draws gofal cychwynnol;<br>3. cynnig datrysiadau arloesol yn gyflym mewn ymateb i'r heriau parhaus. | |
| **20.140 Safon 37 y Gymraeg - Cyfieithu Papurau'r Bwrdd**<br><br>**20.140.1** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod y Bwrdd yn ymwybodol iawn o ddisgwyliadau Safonau'r Gymraeg a bod y papur yn ymwneud â | |

| | |
|---|---|
| dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Atgoffodd aelodau am drafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr a oedd yn gosod tasg i swyddogion ddatblygu opsiynau i symud cydymffurfiaeth â'r Safon hon yn ei blaen. Roedd y papur, a oedd yn amlinellu ystod o opsiynau a'r heriau cysylltiedig, wedi'i rannu gyda chydweithwyr yn y Tîm Gweithredol a oedd yn cefnogi symud tuag at opsiwn 2 yn nhermau costau, y gallu i'w gyflawni a chyflwyno cam eglur i'r cyfeiriad cywir o ran cydymffurfio â Safon 37. Roedd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus hefyd yn gobeithio y byddai symud tuag at ddarparu mwy o bapurau'n ddwyieithog yn annog defnyddio mwy o Gymraeg yng nghyfarfodydd y Bwrdd.<br><br>**20.140.2** Cafwyd trafodaeth. Byddai Aelod Annibynnol yn awyddus i weld y Bwrdd yn gweithio tuag at gydymffurfiaeth lawn â Safon 37 (h.y. opsiwn 3) ond cydnabu'r heriau o ran ymarferoldeb ac amseru. Roedd yn gefnogol o ran anfon papurau'r Bwrdd allan i'w cyfieithu ond nododd fod yn rhaid cyflawni'r lefel gywir o ddisgyblaeth yn fewnol hefyd o ran bodloni'r terfynau amser gofynnol. Awgrymodd y dylai unrhyw drefniant gael ei adolygu ar ôl bod ar waith am chwe mis. Roedd aelodau eraill yn cefnogi'r farn mai opsiwn 3 ddylai fod y nod yn y pen draw. Awgrymodd Aelod Annibynnol y byddai llunio papurau mwy cryno yn helpu gyda'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyfieithu. Nododd y gallai fod angen amser ychwanegol ar gwmni allanol hefyd i ddysgu ieithwedd ac iaith fusnes y sefydliad. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus sicrwydd i aelodau y byddai angen i unrhyw wasanaeth a gaffaelir trwy'r fframweithiau presennol gynnal safonau ansawdd o ran cyfieithu ond derbyniodd y byddai rhai cymhlethdodau i'w goresgyn. Gofynnodd Aelod Annibynnol arall p'un a oedd unrhyw ofynion neu gostau ychwanegol yn ymwneud â Safonau eraill yn debygol o godi. Adroddwyd bod y Bwrdd yn perfformio'n eithaf da o ran elfennau eraill ac y byddai'r Comisiynydd yn ymchwilio i unrhyw faes lle'r oedd eraill wedi tynnu ei sylw at bryder, ond ar hyn o bryd, Safon 37 oedd yr her fwyaf. Ymrwymodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus i roi nodyn briffio ar feysydd eraill yr oedd angen gwelliannau a buddsoddi. Gwnaeth Aelod Annibynnol hefyd awgrymu na ddylid diystyru defnyddio meddalwedd cof cyfieithu. Nododd Aelod Annibynnol arall fod sefydliadau eraill yn ysgrifennu papurau yn Gymraeg a'u cyfieithu i'r Saesneg yn ddiweddarach ac y dylai hyn hefyd fod yn opsiwn i awduron.<br><br>**20.140.3** Gwnaeth y Cadeirydd gefnogi'r farn y dylai'r Bwrdd fod yn gweithio tuag at fodloni'r Safon yn llwyr, ond, roedd yn ymwybodol nad oedd terfynau amser yn cael eu bodloni'n aml ar hyn o bryd a bod angen i'r Bwrdd fod yn hyderus, wrth geisio cyrraedd y Safon, nad oedd y broses yn tanseilio gallu'r Bwrdd i lywodraethu'n briodol ac yn arwain at aelodau'n derbyn gwybodaeth wedi'i dyddio. Teimlai fod angen cyfnod prawf i benderfynu beth y gellid ei gyflwyno'n briodol. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus yn falch o ystyried yr holl sylwadau er mwyn darparu eitemau sefydlog yn ddwyieithog yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd.<br><br>**20.140.4 Penderfynwyd y dylai'r** Bwrdd gefnogi opsiwn 2 fel y'i hamlinellir yn y papur o ran cyfieithu papurau'r Bwrdd yn unol â Safon 37 y Gymraeg, i'w adolygu ar ôl chwe mis. | TO |
| **20.142 Diweddariad ar Ymchwil a Datblygiad**<br><br>**20.142.1** Cyflwynodd Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro'r papur a dywedodd fod lefel galonogol o gynnydd ac enghreifftiau o waith da er gwaethaf yr heriau. Nododd fod | |

| | |
|---|---|
| y sefydliad wedi cynyddu nifer y cleifion a oedd wedi cael mynediad at gyfleoedd triniaeth ac ymchwil arloesol. Tynnodd sylw aelodau at y gwaith arloesol yn ymwneud â datblygu brechlyn Covid-19.<br><br>**20.142.2 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd** dderbyn y diweddariad er gwybodaeth | |
| **20.143 Crynodeb o fusnes Preifat y Bwrdd i adrodd arno'n gyhoeddus**<br><br>Nodwyd | |
| **20.144 Cymru Gyfan a Fforymau Eraill**<br><br>**20.144.1 Penderfynwyd y dylid** nodi'r canlynol:<br>• Nodyn Briffio'r Cydbwyllgor 8.9.20<br>• Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau 17.9.20<br>• Nodyn Briffio'r Cydbwyllgor 13.10.20 | |
| **20.145 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br><br>21 Ionawr 2021 | |
| **20.146 Heb y Wasg a'r Cyhoedd**<br><br>**Penderfynwyd bod** cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i fuddiant y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.' | |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod a dyddiad:**<br>**Meeting and date:** | **Cyfarfod y Bwrdd**<br>**Dydd Iau 21ain Ionawr 2021** |
| **Cyhoeddus neu Breifat:**<br>**Public or Private:** | Cyhoeddus |
| **Teitl yr Adroddiad:**<br>**Report Title:** | Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018. Diweddaru'r gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru a Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:**<br>**Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Yr Athro Arpan Guha, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Mrs Heulwen Hughes, Rheolwr Cymeradwyo Cymru Gyfan ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) |
| **Craffu blaenorol:**<br>**Prior Scrutiny:** | |
| **Atodiadau:**<br>**Appendices:** | **Atodiad 1:** Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru). Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru<br>**Atodiad 2:** Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Diweddaru'r Gofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru |

**Argymhelliad / Recommendation:**

Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r rhestr amgaeedig o ychwanegiadau a diddymiadau i Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Adran 12(2) yng Nghymru a'r Gofrestr Cymru Gyfan o Glinigwyr Cymeradwy.

Ticiwch fel y bo'n briodol

| **Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval** | ✓ | **Ar gyfer Trafodaeth For Discussion** | | **Ar gyfer sicrwydd For Assurance** | | **Er gwybodaeth For Information** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sefyllfa / Situation:**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am gymeradwyo, ail-gymeradwyo, atal a therfynu cymeradwyaeth Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) yng Nghymru.

**Cefndir / Background:**

Yn y newid a gyflwynwyd i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, diddymwyd rôl Swyddogion Meddygol Cyfrifol a Swyddogion Meddygol Cyfrifol Cymunedol a chafodd Clinigwyr Cymeradwy/Cyfrifol eu cyflwyno yn eu lle.

Cytunodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam, o 3ydd Tachwedd 2008 ymlaen, yn gweithredu fel y Corff Cymeradwyo ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ar ran y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Cafodd

swyddogaeth Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam ei throsglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1af Hydref 2009.

**Asesiad a Dadansoddiad / Assessment & Analysis**

**Goblygiadau Strategol**

Mae’n bwysig sicrhau’r safonau llywodraethu uchaf ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo ymarferwyr sy’n cael y cyfrifoldebau ychwanegol hyn, mewn cysylltiad â phobl ag anhwylder meddwl.

**Opsiynau i’w hystyried**

Adroddiad ffeithiol yw hwn at ddibenion cadarnhau.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae’r Tîm Cymeradwyo yn cael cyllideb wedi’i neilltuo gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith monitro a chymeradwyo Clinigwyr yng Nghymru.

**Dadansoddi Risg**

Er mwyn sicrhau bod yr holl Glinigwyr yn cael eu cymeradwyo a'u hail-gymeradwyo o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, mae Panel Cymeradwyo Cymru Gyfan yn asesu ceisiadau yn unol â'r Trefniadau Gweithdrefnol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

**Cyfreithiol a Chydymffurfio**

Mae’r Broses Gymeradwyo yn bodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y’i diwygiwyd 2007) a Chyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018.

**Asesiad o’r Effaith**

Ystyrir nad oes angen asesiad effaith ar gyfer y diweddariad hwn.  Mae’r Broses Gymeradwyo yn rhan o’r broses Ddeddfwriaethol.

| Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy a Meddygon Cymeradwy Adran 12 (2) yng Nghymru<br>28ain Hydref 2020 – 31ain Rhagfyr 2020 | | |
|---|---|---|
| | **Clinigwyr Cymeradwy** | **A12 (2)** |
| **Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo** | 16 | 6 |
| **Tynnwyd – Wedi dod i ben** | 3 | 0 |
| **Atal cymeradwyaeth dros dro** | 1 | 0 |
| **Ail-ysgogi cymeradwyaeth - dychwelyd i weithio yng Nghymru** | 0 | 0 |
| **Cymeradwyaeth wedi dod i ben** | 0 | 1 |
| **Wedi ymddeol** | 1 | 0 |
| **Tynnwyd – Clinigwyr Cymeradwy wedi'u cymeradwyo** | Amh. | 5 |
| **Ddim wedi cofrestru mwyach** | 0 | 0 |
| **Trosglwyddwyd o'r gofrestr Clinigwyr Cymeradwy** | 0 | 0 |
| **Cymeradwyaeth wedi dod i ben gan nad ydynt yn gweithio yng Nghymru mwyach** | 5 | 0 |
| **Wedi cofrestru heb drwydded i ymarfer** | 0 | 0 |

**ATODIAD 1**

**Deddf Iechyd Meddwl 1983 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007**

**Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru)**

**Diweddaru'r Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy yng Nghymru**

**28ain Hydref 2020 – 31ain Rhagfyr 2020**

**Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo – 16**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| Argent | Sarah | Tŷ Llidiard, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1RQ | 19 Tachwedd 2025 |
| Howe | Gareth | Tŷ Penfro, 67a Heol Penfro, Treganna, Caerdydd | 25 Tachwedd 2025 |
| Brazzo | Daniela | Ysbyty Dewi Sant, Heol y Bont-faen, Caerdydd | 25 Tachwedd 2025 |
| Chapman | David | Ysbyty Heatherwood Court, Heol Llantrisant, Pontypridd CF37 1PL | 25 Ebrill 2023 |
| Tahseen | Hina | Delfryn House, Argoed Hall Lane, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6FQ | 03 Rhagfyr 2025 |
| Aslam | Ambreen | Tŷ Sant Teilo, Stryd Goshen, Rhymni NP22 5NF | 07 Rhagfyr 2025 |
| Kosorinova | Eva | Ysbyty Tonna, Tonna Uchaf, Castell-nedd SA11 3LX | 13 Rhagfyr 2025 |
| Andrew | Martin | Adran Straen Trawmatig, Adeilad Haydn Ellis, Heol Maindy, Caerdydd CF24 4HQ | 05 Tachwedd 2025 |
| Oruganti | Radhika | Seiciatreg Gyswllt ar gyfer Pobl Hŷn, Llawr 1af, Tŷ Mynwy, Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 0XW | 19 Tachwedd 2025 |
| Lepping | Peter | Uned Seiciatrig Heddfan, Ysbyty Maelor Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7TD | 29 Tachwedd 2025 |
| Owen | Angela Christine | Ysbyty Annibynnol Rushcliffe, Scarlet Avenue, Port Talbot SA12 7PH | 13 Rhagfyr 2025 |

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| Isaac | Andrew Bhasker | Uned Asesu a Thriniaeth Hafod y Wennol, Hen Safle Hensol, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf CF72 8YS | 15 Rhagfyr 2025 |
| Grzegorzak | Grezgorz Stanislaw | Ysbyty San Pedr, Heol Cas-gwent, Llandevaud, Casnewydd NP18 2AA | 15 Rhagfyr 2025 |
| Fischer | Thomas | Ysbyty Cefn Carnau, Lôn Cefn Carnau, Thornill, Caerffili CF83 1LX | 15 Rhagfyr 2025 |
| Chakrabarti | Arpita | Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ffordd Penlan, Llandochau, Penarth CF64 2XX | 05 Tachwedd 2025 |
| Cressey-Rodgers | Justin | Canolfan Adnoddau Wellfield, 22 Heol Wellfield, Caerfyrddin SA31 1DN | 21 Rhagfyr 2025 |

**Ail-ysgogi cymeradwyaeth – 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Cymeradwyaeth wedi dod i ben – 3**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| Ghaly | Adel Nessim | Heol Nant Alyn, Rhydymwyn, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 5HA | 28 Hydref 2020 |
| Rehman | Ijaz-Ur | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Fan Gorau, Ysbyty Sir Drefaldwyn, Heol Llanfair, Y Drenewydd, Powys SY16 2DW | 29 Tachwedd 2020 |
| Skrstsen | Anders | Tŷ Illtyd, Stryd y Bont, Aberhonddu LD3 8AH | 02 Rhagfyr 2020 |

**Atal cymeradwyaeth dros dro – 1**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| Lorenz | Tom | Tŷ Catherine Gladstone, Mancot, Sir y Fflint CH5 2EP | 27 Rhagfyr 2021 |

**Wedi ymddeol – 1**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| Evans | Timothy Nigel | Ysbyty Cefn Coed, Heol Waunarlwydd, Cockett, Abertawe SA2 0GH | 31 Ionawr 2022 |

**Ddim wedi cofrestru mwyach - 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach – 5**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| Ubawuchi | Christopher | Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, ger y Rhyl LL18 5UJ | 29 Ionawr 2021 |

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| Lutchman | Russell David | Uned Diogelwch Canolig Tŷ Llywelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan LL33 0HH | 05 Rhagfyr 2020 |
| Rastogi | Abinhav | Ward Morlais, Ysbyty Glangwili, Heol Dolgwili, Caerfyrddin SA31 2AF | 14 Tachwedd 2022 |
| Mohamad | Mirza Wasi | Tîm Triniaeth yn y Cartref, Cerrig Camu, Lôn y Parc, Y Drenewydd, Powys SY16 1EN | 08 Mai 2022 |
| Rutherford | Margaret Helen Wood | Tŷ Catrin, Heol Dyfrig, Trelái, Caerdydd CF8 5AD | 20 Rhagfyr 2022 |

**Cymeradwyaeth wedi dod i ben – 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad Dod i Ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

**ATODIAD 2**

**Deddf Iechyd Meddwl 1983**

**Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) yng Nghymru**

**28ain Hydref 2020 – 31ain Rhagfyr 2020**

**Cymeradwyo ac Ail-gymeradwyo – 6**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| Thimmaiah | Neema | Uned Seiciatrig Heddfan, Ysbyty Maelor Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7TD | 15 Tachwedd 2025 |
| Goldring | Katie Jayne | Uned Adfer â Chymorth, Ysbyty George Thomas, Treorci CF42 6YG | 17 Rhagfyr 2025 |
| Lydon | Helen Mary | 86 Lake Road East, Caerdydd CF23 5NP | 22 Tachwedd 2025 |
| Faisal | Mohammad | Adran Seiciatreg yr Henoed, Ysbyty Cefn Coed, Cockett, Abertawe SA2 0GH | 05 Tachwedd 2025 |
| Viswanath | Madappa | Uned Diogelwch Isel Cwm Seren a PICU, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB | 03 Tachwedd 2025 |
| Drury | Jayne Helen | Canolfan Feddygol Gwrych, Cae Eithin, Abergele, Conwy LL22 8LJ | 22 Rhagfyr 2025 |

**Tynnwyd – Wedi dod i ben – 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Tynnwyd – Wedi gorffen - 1**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| Priyadarshini | Indira | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Brynmair, 11 Heol Goring, Llanelli, SA15 3HF | 28 Rhagfyr 2020 |

**Tynnwyd – Clinigwyr Cymeradwy wedi'u cymeradwyo – 5**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| Rafferty | Danika | Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hyn, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ffordd Penlan, Llandochau, Penarth CF64 2XX | 27 Gorffennaf 2021 |
| Argent | Sarah | Clinig Caswell, Heol Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4LN | 20 Mai 2024 |
| Rangoonwala | Yusuf | Ysbyty'r Eglwys Newydd, Heol y Parc, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7XB | 22 Mai 2022 |
| Howe | Gareth | Uned Asesu a Thriniaeth Hafod y Wennol, Hensol, Pontyclun, CF72 8JY | 03 Medi 2022 |
| Brazzo | Daniela | CAMHS, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coety, Pen-y-bont ar Ogwr | 23 Rhagfyr 2020 |

**Ddim wedi cofrestru mwyach - 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Trosglwyddwyd o’r gofrestr Clinigwyr Cymeradwy - 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben | Gweithle |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Ddim yn gweithio yng Nghymru mwyach – 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Ddim wedi cofrestru mwyach - 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Tynnwyd – wedi ymddeol – 0**

| Cyfenw | Enw Cyntaf | Gweithle | Dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod a dyddiad:**<br>**Meeting and date:** | Bwrdd Iechyd<br>21ain Ionawr 2021 |
| **Cyhoeddus neu Breifat:**<br>**Public or Private:** | Cyhoeddus |
| **Teitl yr Adroddiad:**<br>**Report Title:** | Dogfennau wedi'u Llofnodi dan Sêl 9.9.20 – 2.12.20 |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:**<br>**Responsible Director:** | Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Liz Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol |
| **Craffu Blaenorol:**<br>**Prior Scrutiny:** | Tîm Gweithredol |
| **Atodiadau:**<br>**Appendices:** | - |

**Argymhelliad / Recommendation:**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

Ticiwch un fel sy'n briodol (cofiwch y bydd Cadeirydd y cyfarfod yn adolygu'r ddogfen ac yn penderfynu o bosibl y dylid ei hystyried o dan gategori gwahanol)

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar gyfer Penderfyniad /Cymeradwyaeth For Decision/ Approval** | | **I'w Drafod For Discussion** | | **Er Sicrwydd For Assurance** | | **Er gwybodaeth For Information** | **x** |

**Sefyllfa / Situation:**

Mae'r adroddiad hwn yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 9.1.1, sy'n mynnu bod adroddiad ar yr holl ddogfennau a lofnodir dan sêl yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w nodi o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

**Cefndir / Background:**

Mae angen cymeradwyo prydlesi, contractau a dogfennau tebyg ar lefel y Prif Weithredwr/ Cadeirydd, a defnyddio sêl swyddogol y Bwrdd Iechyd.

**Asesiad a Dadansoddiad / Assessment & Analysis:**

Mae'r dogfennau lle mae'n ofynnol cael sêl swyddogol ar eu cyfer, ers 9.9.20, wedi'u rhestru isod:

| Dogfen | Dyddiad prosesu |
|---|---|
| Cytundeb o dan Adran 104 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 – Adeilad Amlasiantaeth Arfaethedig, Rowleys Drive, Shotton, Sir y Fflint | 9.9.20 |
| Contract: Safe Clean Care – Rhanbarth y Gorllewin | 1.10.20 |
| Contract: Ardal Weinyddol yn Ysbyty Penrhos Stanley – Ffordd y Traeth, Caergybi, Ynys Môn, LL65 2QA | 1.10.20 |
| Contract: Iechyd Meddwl Pobl Hŷn (OPMH) yn Ysbyty Bryn Beryl - Ffordd Caernarfon, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6TT | 1.10.20 |
| Ffurflen TR1 Cofrestrfa Tir EM (Trosglwyddo holl deitlau cofrestredig) Tir ac adeiladau yng Ngogledd Ffordd Tywyn, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3UR. (Clinig Ffisiotherapi gynt) | 9.9.20 |
| (Gwerthu) Tir ac adeiladau dan gontract yng ngogledd Ffordd Tywyn, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3UR. (Clinig Ffisiotherapi gynt) | 9.9.20 |
| Ffurflen Drwydded Safonol – Ardal o dir sy’n rhan o safle Ysgol Iau Parc Borras, Ffordd Parc Borras, Wrecsam, LL12 7TH | 9.9.20 |
| Gweithred Amrywio - Llawr Cyntaf Bloc C Canolfan Archimedes, Parc Technoleg Wrecsam | 1.10.20 |
| Trwydded i Isosod – Llawr Cyntaf Bloc C Canolfan Archimedes, Parc Technoleg Wrecsam | 1.10.20 |
| Trwydded i feddiannu yn y byrdymor – Eglwys Fethodistaidd, Capel Ebenezer, Stryd y Bont, Llangefni, Ynys Môn LL77 7PN | 1.10.20 |
| Prydles – Meddygfa Madog, Cwrt Coffa, Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd | 14.10.20 |
| Trwydded i feddiannu yn y Byrdymor - Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Gorllewin Ffordd Caer, Queensferry, Glannau Dyfrdwy | 14.10.20 |
| Adnewyddu/Ailfodelu Craig Hyfryd, Stryd Cambria, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1NH | 15.10.20 |
| Trwydded i Feddiannu yn y byrdymor - Neuadd Gymunedol Llaingoch, Ffordd Ynys Lawd, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1LR | 6.11.20 |
| Grant Hawddfraint – Clinig Corwen, Lôn Las, Corwen | 6.11.20 |
| Cytundeb o dan Adran 104 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr – Yr Orsaf Reilffyrdd newydd yng Nghorwen | 6.11.20 |
| Isosod (Rhan o) Ganolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol Parc Caia Wrecsam | 12.11.20 |
| Prydles Fusnes - INTEC. Uned G11, INTEC, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG | 2.12.20 |
| Prydles Fusnes - INTEC. Uned G10, INTEC, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG. | 2.12.20 |

V1.0 Cymeradwywyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod a dyddiad:**<br>**Meeting and date:** | Bwrdd Iechyd<br>21 Ionawr 2021 |
| **Cyhoeddus neu Breifat:**<br>**Public or Private:** | Cyhoeddus |
| **Teitl yr Adroddiad**<br>**Report Title:** | Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:**<br>**Responsible Director:** | Mr Mark Wilkinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad |
| **Awdur yr Adroddiad**<br>**Report Author:** | Mr Ed Williams, Pennaeth Perfformiad |
| **Craffu blaenorol:**<br>**Prior Scrutiny:** | Mae'r data a'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi cael eu craffu gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, Ionawr 2021, a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, Rhagfyr 2020. |
| **Atodiadau**<br>**Appendices:** | 1. Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Tachwedd 2020 |

**Argymhelliad / Recommendation:**

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd graffu'r adroddiad ac ystyried a oes angen uwchgyfeirio unrhyw faes ymhellach.

Ticiwch fel sy'n briodol

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval** | | **Ar gyfer Trafodaeth For Discussion** | | **Ar gyfer sicrwydd For Assurance** | ✓ | **Er gwybodaeth For Information** | |

**Sefyllfa / Situation:**

Mae'n bwysig nodi, oherwydd pandemig parhaus Covid-19, er na fydd Llywodraeth Cymru'n rheoli perfformiad Byrddau Iechyd ar sail y mesurau perfformiad a nodir yn yr adroddiad hwn, maent wedi argymell monitro a chyhoeddi data.

Mae'r Adroddiad bellach yn cynnwys saethau tueddiadau gyda sgôr Coch-Oren-Gwyrdd (COG) sy'n adnabod cyfeiriad y perfformiad dros y 6 mis diwethaf.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y dangosyddion sydd ar gael gan y Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol, yn ogystal ag adran ar Covid-19 a Darpariaeth Gwasanaethau Hanfodol.

**Cefndir / Background:**

Mae ein hadroddiad yn amlinellu'r prif faterion perfformiad ac ansawdd sy'n flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd. Mae crynodeb o'r adroddiad bellach wedi'i gynnwys yn nhudalennau Crynodeb Gweithredol yr adroddiad ansawdd a pherfformiad (QAP) ac yn arddangos y gwaith ar Covid-19, darpariaeth gwasanaethau hanfodol yn ogystal â'r mesurau allweddol a nodir yn y Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol 2020-21. Mae'r fframwaith hwn wedi'i adolygu er mwyn darparu mesurau perfformiad dan y Nod Pedwarplyg sydd wedi'i gynnwys yn 'Cymru Iachach'.

| Asesiad a Dadansoddiad / Assessment & Analysis |
|---|
| **Goblygiadau'r Strategaeth**<br>Mae'r mesurau perfformiad a nodir yn yr adroddiad wedi cael eu halinio â'r Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol.<br><br>**Opsiynau a ystyriwyd**<br><br>Amherthnasol<br><br>**Goblygiadau Ariannol**<br>Bydd cyflawniad y dangosyddion perfformiad a nodir yn ein cynllun blynyddol yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gynllun adfer ariannol y Bwrdd.<br><br>**Dadansoddiad o Risg**<br>Mae'r pandemig presennol wedi creu llawer iawn o risgiau i ddarpariaeth gofal ym mhob rhan o'r system gofal iechyd. Mae'r papur yn amlygu'r risgiau sy'n deillio'n uniongyrchol o Covid-19, a'r angen i gynnal gwasanaethau hanfodol nad ydynt yn ymwneud â Covid-19. Adroddir ar effaith Covid-19 ar ofal a gynlluniwyd nad yw'n ymwneud â Covid-19, yn ogystal â'r rhyng-ddibyniaeth rhwng sicrhau ail-ddechrau gofal dewisol yn ddiogel a chydbwyso'r risg o Covid-19 i gleifion, staff a chapasiti'r system.<br><br>**Y Gyfraith a Chydymffurfio**<br>Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar ran y Bwrdd Iechyd<br><br>**Asesiad o Effaith**<br><br>Nid yw'r Adroddiad wedi cael Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod a dyddiad:**<br>**Meeting and date:** | Bwrdd Iechyd<br>21ain Ionawr 2021 |
| **Cyhoeddus neu Breifat:**<br>**Public or Private:** | Cyhoeddus |
| **Teitl yr Adroddiad:**<br>**Report Title:** | Adroddiad Ariannol Mis 7 2020/21 |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:**<br>**Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Eric Gardiner, Cyfarwyddwr Cyllid – Gwasanaethau Darparu |
| **Craffu blaenorol:**<br>**Prior Scrutiny:** | Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol<br>Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad |
| **Atodiadau:**<br>**Appendices:** | Atodiad 1: Pecyn Adroddiad Ariannol |

**Argymhelliad / Recommendation:**

Gofynnir i aelodau nodi'r adroddiad.

Ticiwch un fel sy'n briodol (cofiwch y bydd Cadeirydd y cyfarfod yn adolygu'r ddogfen ac o bosibl yn penderfynu y dylid ei hystyried o dan gategori gwahanol)

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval** | | **Ar gyfer Trafodaeth For Discussion** | | **Ar gyfer sicrwydd For Assurance** | ✓ | **Er gwybodaeth For Information** | |

**Sefyllfa / Situation:**

Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd fel ag yr oedd ar 31 Hydref 2020 ac mae'n adlewyrchu effaith ariannol yr ymateb parhaus i bandemig COVID-19.

**Cefndir / Background:**

Y cynllun ariannol ar gyfer 2020/21, a gymeradwywyd gan y Bwrdd, yw cyrraedd sefyllfa lle ceir diffyg o £40m, yn seiliedig ar gyflawni arbedion o £45m. Nid oedd y cynllun gwreiddiol wedi ystyried effaith COVID-19, ac felly mae wedi cael ei fireinio drwy gydol y flwyddyn, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma, mae'r gwariant wedi bod yn sylweddol wahanol i'r hyn a gynlluniwyd oherwydd yr ymateb i'r pandemig. O ganlyniad, mae hynny wedi effeithio'n sylweddol ar yr arbedion wrth i'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu'r ymateb clinigol a gweithredol i'r pandemig.

Cyflwynwyd cynllun cyfunol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ail hanner y flwyddyn ariannol ym mis Hydref ac mae'r gweithgarwch clinigol disgwyliedig wedi'i ymgorffori yn natganiad Mis 7. Mae cynllun Chwarter 3 / 4 yn canolbwyntio ar gynyddu'r gofal sydd wedi'i gynllunio a rhoi sylw i'r cynlluniau ar gyfer delio â'r galwadau cynyddol yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y gallai amrywiadau yng nghyfraddau heintio COVID-19 ar draws ein poblogaeth dros fisoedd y gaeaf effeithio ar ein gallu i gyflawni'r cynllun, gan leihau gweithgarwch a chynyddu costau o bosibl. Bydd yr ansicrwydd hwn ynghylch achosion newydd o COVID-19 a'r mesurau atal haint hanfodol sydd wedi'u rhoi ar waith yn parhau i effeithio ar ragolygon gwariant a bydd yr arbedion a gyflawnir yn lleihau'n sylweddol am weddill y flwyddyn.

**Asesiad / Assessment:**

**<u>1.0 Goblygiadau'r Strategaeth</u>**

Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r nod strategol o sicrhau cydbwysedd ariannol ac mae'n gysylltiedig â'r amcan llesiant o dargedu ein hadnoddau at y rheini sydd mwyaf mewn angen.

**2.0 Yr opsiynau a ystyriwyd**
Ddim yn berthnasol – adroddiad er sicrwydd yn unig.

**3.0 Goblygiadau Ariannol**

| | Month 7 £m | Cumulative £m |
|---|---|---|
| Actual Positon | (20.0) | (0.2) |
| Planned Position | 3.4 | 23.4 |
| Variance | 23.4 | 23.6 |

Ym mis 7, ceir gwarged o £20.0m yn erbyn sefyllfa arfaethedig o ddiffyg o £3.4m. Felly, mae amrywiad o £23.4m ym Mis 7 o'i gymharu â'r sefyllfa arfaethedig sy'n well na'r disgwyl. Y sefyllfa gronnus am y flwyddyn hyd yma yw gwarged o £0.2m, sy'n £23.6m yn llai na'r diffyg arfaethedig o £23.4m.

Roedd effaith COVID-19 ym mis Hydref yn £6.3m. Mae wedi costio £74.1m hyd yma a rhagwelir y bydd y gost yn £155.7m erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd rhagolygon gwariant COVID-19 yn cael eu hadolygu'n llawn ym mis Tachwedd, yn unol â'r cynlluniau diwygiedig sy'n esblygu ar gyfer rheoli'r pandemig. Roedd y rhagolygon gwreiddiol yn seiliedig ar y sefyllfa waethaf bosibl resymol ar gyfer achosion o COVID-19, ond mae camau ataliol Llywodraethau Cymru a'r DU wedi helpu i wella'r sefyllfa'n sylweddol.

Ym Mis 6, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £40.0m, yn unol â'r cynllun ariannol ar gyfer 2020/21. Roedd y pecyn cymorth trawsnewid a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref yn cynnwys £40.0m o gyllid i dalu am y diffyg arfaethedig. Felly, mae'r rhagolwg o'r sefyllfa ariannol ym Mis 7 wedi'i ddiwygio i sefyllfa gytbwys i adlewyrchu'r cyllid hwn.

**4.0 Dadansoddiad Risg**
Mae cyfleoedd gwerth £2.5m i wella'r sefyllfa ariannol drwy gyfrwng y cynlluniau arbedion sydd ar y gweill. Rhagwelir y byddant yn symud i wyrdd neu oren ym mis Tachwedd. At hynny, mae cyfle posibl arall pe newidir y trefniant contract bloc presennol gyda GIG Lloegr. Fodd bynnag, ni ellir pennu'r gwerth hyd nes y cytunir ar unrhyw newidiadau. Mae pum risg i'r sefyllfa ariannol, ond ni ellir mesur gwerth y rhain ar hyn o bryd. Ceir manylion am y cyfleoedd a'r risgiau ar dudalen 6 y pecyn adroddiadau.

**5.0 Cyfreithiol a Chydymffurfio**
Amherthnasol.

**6.0 Asesiad o'r Effaith**
Amherthnasol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

# Adroddiad Cyllid
# Hydref 2020 – M07

Sue Hill

Cyfarwyddwr Cyllid

# Crynodeb Gweithredol

## Amcan

Rhoi sicrwydd ynghylch y perfformiad ariannol , cyflawniad yn erbyn cynlluniau ac amcanion ariannol y Bwrdd Iechyd a rhoi rhybudd cynnar am faterion posibl yn ymwneud â pherfformiad. Cyflwyno argymhellion ynghylch camau gweithredu i wella sefyllfa ariannol y sefydliad yn barhaus, gan ganolbwyntio ar faterion penodol lle mae perfformiad ariannol yn dirywio neu lle mae meysydd sy'n peri pryder.

## Sicrwydd Allweddol

- ✓ Adroddwyd sefyllfa gwarged y mis presennol a'r flwyddyn hyd yma yn erbyn y cynllun.
- ✓ Rhagwelir sefyllfa gytbwys ar gyfer y flwyddyn.
- ✓ Yr holl dargedau ariannol allweddol ar gyfer arian parod, cyfalaf a PSPP yn cael eu cyflawni.
- ✓ Rhagwelir cynnydd o £0.7m mewn arbedion yn ystod y mis.
- ✓ Effaith cost lawn COVID-19 yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

## Meysydd Gweithredu

- ➢ Adolygu rhagolygon gwariant COVID-19, yn unol â'r cynlluniau diwygiedig a'r rhai sy'n esblygu ar gyfer rheoli'r pandemig
- ➢ Trosi £2.5m o gynlluniau arbedion sydd ar y gweill i gynlluniau gwyrdd/oren.
- ➢ Symud at gynlluniau darparu ar gyfer gofal heb ei drefnu, gofal wedi'i gynllunio a chynlluniau o gynllun Chwarter 3 / 4.
- ➢ Parhau i drafod â Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o gario gwyliau blynyddol drosodd a'r goblygiadau cost.

# Crynodeb o'r Rhifau Allweddol

### Y Sefyllfa ym Mis 7

£20.0m o warged yn erbyn diffyg o £3.4m a gynlluniwyd

**£23.4m er gwell**

### Sefyllfa'r Flwyddyn Hyd Yma

£0.2m o warged yn erbyn diffyg o £23.4m a gynlluniwyd

**£23.6m er gwell**

### Rhagolwg

Wedi'i gydbwyso yn erbyn diffyg o £40.0m a gynlluniwyd

**£40.0m er gwell**

### Arbedion y Flwyddyn Hyd Yma

£7.2m yn erbyn cynllun o £25.8m

**Diffyg o £18.6m**

### Rhagolwg o'r Arbedion

£15.7m yn erbyn y cynllun o £45.0m

**Diffyg o £29.3m**

### Effaith COVID-19

Gwariant o £74.1m yn y flwyddyn hyd yma
Rhagolwg o £155.7m
Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru

**Dim effaith £**

### Incwm

£73.7m yn erbyn cyllideb o £80.7m

**£7.0m er gwaeth**

### Cyflog

£466.2m yn erbyn cyllideb o £474.2m

**£8.0m er gwell**

### Heblaw am Gyflog

£589.1m yn erbyn cyllideb o £611.7m

**£22.6m er gwell**

### P[illegible]ol

| | |
|---|---|
| Timoedd Ardal | £1.5m ar ein colled |
| Gofal Eilaidd | £2.5m er gwaeth |
| Iechyd Meddwl | £0.3m er gwell |
| Corfforaethol | £1.3m er gwaeth |
| Arall | £28.6m er gwell |

### Prif Risgiau


Rhaglen arbedion
Brechiadau rhag y ffliw / COVID-19
Cario gwyliau blynyddol drosodd

### Y Fantolen

**Arian parod**: O fewn y targed mewnol.
**Cyflaf**: Rhagwelir cyflawni CRL.
**PSPP**: Wedi cyflawni'r targed ar gyfer anfonebu dim-GIG yn y flwyddyn hyd yma.

# Sefyllfa Refeniw

| | Actual | | | | | | | Cumulative | | | Forecast |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M01 | M02 | M03 | M04 | M05 | M06 | M07 | Budget | Actual | Variance | |
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| Revenue Resource Limit | (154.7) | (128.5) | (133.2) | (140.1) | (103.7) | (161.2) | (160.4) | (981.8) | (981.8) | 0.0 | (1,759.5) |
| Miscellaneous Income | (9.7) | (9.8) | (9.3) | (9.6) | (12.1) | (11.1) | (12.1) | (80.7) | (73.7) | (7.0) | (122.8) |
| Health Board Pay Expenditure | 65.0 | 66.1 | 68.1 | 67.3 | 66.0 | 65.6 | 68.1 | 474.2 | 466.2 | 8.0 | 838.3 |
| Non-Pay Expenditure | 102.8 | 75.5 | 77.7 | 85.7 | 80.8 | 82.2 | 84.4 | 611.7 | 589.1 | 22.6 | 1,044.0 |
| **Total** | **3.4** | **3.3** | **3.3** | **3.3** | **31.0** | **(24.5)** | **(20.0)** | **23.4** | **(0.2)** | **23.6** | **0.0** |





- Mae’r sefyllfa o fewn y mis yn dangos gwarged o £20.0m, sy’n £23.4m o dan y cynllun ar gyfer Mis 7.
- Sefyllfa gronnus am y flwyddyn hyd yma gyda gwarged o £0.2m, sy'n £23.6m yn llai na'r diffyg arfaethedig o £23.4m.
- Mae’r sefyllfa incwm wan o ganlyniad i COVID-19.
- Derbyniwyd £51.0m o gyllid trawsnewidiol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:
  - £40.0m i dalu am y diffyg arfaethedig;
  - £10.3m ar gyfer gofal wedi’i gynllunio a diagnosteg; a
  - £0.7m i wella arweinyddiaeth ym maes Iechyd Meddwl, llywodraethu, darparu a chymorth gyda Datblygu Sefydliadol.
- Cyflwynwyd £23.4m o hyn i’r sefyllfa ym Mis 7 i ariannu’r diffyg arfaethedig hyd yma, gan arwain at welliant sylweddol yn y sefyllfa ariannol a rhagolwg cytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- Nid yw’r gweddill wedi’i wario eto, ond rhagwelir y bydd wedi’i ddefnyddio’n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- Mae’r gwariant a ragwelir ar gyfer gweddill y flwyddyn yn dangos cynnydd sylweddol mewn gwariant sy’n adlewyrchu cost cynlluniau ar gyfer gofal heb ei drefnu, gofal wedi’i gynllunio a chynlluniau o gynllun Chwarter 3 / 4. Mae tîm y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn cefnogi uwch-adrannau gyda’u cynlluniau recriwtio, gan ei bod yn hollbwysig sicrhau bod staff yn eu lle i gyflwyno’r cynlluniau hyn.

# Effaith COVID-19

| | M01 £m | M02 £m | M03 £m | M04 £m | M05 £m | M06 £m | M07 £m | YTD £m | Forecast £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| COVID-19 spend (incl. Field Hospitals) | 28.8 | 3.7 | 7.3 | 7.1 | 6.1 | 4.8 | 7.1 | 64.9 | 132.9 |
| Lost income | 1.2 | 1.4 | 1.2 | 1.6 | 1.6 | 0.4 | 1.0 | 8.4 | 13.6 |
| Non delivery of savings | 3.7 | 3.6 | 2.0 | 2.7 | 2.3 | 3.9 | 0.5 | 18.7 | 31.9 |
| Elective underspend | (2.4) | (2.8) | (2.2) | (2.6) | (1.9) | (1.5) | (1.7) | (15.1) | (19.7) |
| Slippage on planned investments | (0.2) | (0.1) | (0.5) | (0.5) | (0.2) | (0.2) | (0.5) | (2.2) | (2.3) |
| Cluster funding | 0.0 | 0.0 | (0.3) | (0.1) | 0.0 | (0.1) | (0.1) | (0.6) | (0.7) |
| ICF Funding | (0.3) | (0.7) | 0.0 | 1.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Total COVID-19 costs** | **30.8** | **5.1** | **7.5** | **9.2** | **7.9** | **7.3** | **6.3** | **74.1** | **155.7** |
| Optimise Flow & Outcomes (ICF) | 0.0 | 0.0 | 0.0 | (1.6) | (0.1) | (0.1) | (0.1) | (1.9) | (2.5) |
| Mental Health Improvement Fund | 0.0 | 0.0 | 0.0 | (0.7) | 0.0 | 0.0 | 0.0 | (0.7) | (0.7) |
| GMS (DES) | 0.0 | 0.0 | 0.0 | (0.1) | 0.0 | 0.0 | 0.0 | (0.1) | (0.2) |
| Welsh Government | (30.8) | (5.1) | (7.5) | (6.8) | 19.8 | (34.8) | (6.2) | (71.4) | (152.3) |
| **Total COVID-19 income** | **(30.8)** | **(5.1)** | **(7.5)** | **(9.2)** | **19.7** | **(34.9)** | **(6.3)** | **(74.1)** | **(155.7)** |
| **Impact on position** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **27.6** | **(27.6)** | **0.0** | **0.0** | **0.0** |




- £6.3m yw cost COVID-19 ym mis Hydref. Y gost yn ystod y flwyddyn hyd yma yw £74.1m. Rhagwelir y bydd cyfanswm cost COVID-19 yn £155.7m.
- Derbyniwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r flwyddyn hyd yma yn llawn yn ogystal ag effaith arfaethedig COVID-19.
- Roedd rhagolygon COVID-19 yn seiliedig ar y sefyllfa waethaf bosibl resymol ar gyfer achosion o COVID-19, ond mae camau ataliol Llywodraethau Cymru a'r DU wedi helpu i wella'r sefyllfa'n sylweddol.
- Caiff y rhagolygon gwariant eu hadolygu'n llawn ym mis Tachwedd, yn unol â'r cynlluniau diwygiedig sy'n esblygu ar gyfer rheoli'r pandemig.

# Risgiau a Chyfleoedd (heb eu cynnwys yn y sefyllfa)

| | Problem | Disgrifiad | £m | Tebygolrwydd | Pwynt Penderfynu Allweddol a Chrynodeb o'r Camau Lliniaru | Perchennog y Risg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyfle: Cynlluniau Arbedion yn yr Arfaeth sy'n Goch | – Mae cynlluniau arbedion sydd wedi'u graddio'n goch gwerth £2.5m yn cael eu dal yn ôl ar hyn o bryd ond disgwylir dechrau eu darparu dros y mis nesaf. | 2.5 | Canolig | – Mae gwaith yn mynd rhagddo i symud y cynlluniau hyn i oren / gwyrdd. Disgwylir cyflawni arbedion o £2.5m erbyn diwedd y flwyddyn. | Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro |
| 2 | Cyfle: Budd contractio | – Mae'n bosibl y bydd y trefniant contract bloc presennol gyda NHSE yn cael ei adolygu i % gwerth llai a gallai hyn arwain at fudd ariannol i'r Bwrdd Iechyd. | | Canolig | – Mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn parhau. | Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro |
| 3 | Risg: Rhaglen Frechu ar gyfer y Ffliw a COVID-19 | – Rydym wedi cynnwys amcangyfrif o gost ymestyn y rhaglen frechu rhag y ffliw a rhaglen frechu bosibl ar gyfer COVID-19 yn y rhagolwg. Rydym hefyd wedi cynnwys incwm gan Lywodraeth Cymru i gyfateb i'r costau hyn yn y rhagolwg. Fodd bynnag, mae risg y gallai'r costau hyn fod yn uwch na'r hyn a ragwelir ar hyn o bryd. | | Canolig | – Mae'r cynllun yn dal i gael ei ddatblygu ac mae'r amcangyfrif diweddaraf ar gyfer cost y ddwy raglen hon wedi'i gynnwys yn rhagolwg y mis hwn, er y gallai hyn gael ei adolygu ymhellach. | Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro |
| 4 | Risg: Cario gwyliau blynyddol drosodd | – Gan fod y llwyth gwaith yn sgil COVID-19 yn ei wneud yn anodd cymryd gwyliau, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynghylch y posibilrwydd o ganiatáu i staff anfeddygol a deintyddol gario hyd at bum diwrnod o wyliau blynyddol drosodd. Pe caiff hyn ei gytuno, byddai'n arwain at oblygiadau cost i groniad gwyliau blynyddol y Bwrdd Iechyd. | | Canolig | – Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru. | Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 5 | Risg: Rhaglen Arbedion | – Mae risg na fydd y cynlluniau oren yn y rhaglen arbedion yn cyflawni'r gwerthoedd disgwyliedig. | | Canolig | – Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol yn ystyried opsiynau a gofynion o ran capasiti er mwyn ailsefydlu'r swyddogaeth cyflawni arbedion a PMO, a fydd yn cynnig capasiti pwrpasol i yrru'r cynlluniau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd yn eu blaen. | Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro |
| 6 | Risg: Monitro Meddygon Iau | – Cafwyd achos cyfreithiol sylweddol i osod cynsail a oedd yn canolbwyntio ar sut y dylai sefydliadau'r GIG fynd i'r afael â monitro meddygon iau. | | Canolig | – Nid yw'n glir eto sut bydd yr achos hwn yn effeithio ar y Bwrdd Iechyd a beth fydd y goblygiadau ariannol. Mae ymchwiliadau pellach ar y gweill i fesur unrhyw effaith bosibl. | Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 7 | Risg: Tâl Gwyliau | – Mae tîm Cyfraith Cyflogaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cadarnhau bod y materion tâl gwyliau sy'n deillio o'r dyfarniad Flowers yn dal heb eu datrys a'u bod yn disgwyl canlyniad apêl y Goruchaf Lys. | | Canolig | – Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r sefyllfa a bydd yn ymateb yn briodol i unrhyw benderfyniad cyfreithiol. | Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Iechyd**<br><br>**21/01/2021** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board<br>*Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Y Pwyllgor Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17/12/2020 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Richard Medwyn Hughes, Aelod Annibynnol |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Dawn Sharp, Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| **Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:** | • Eitemau preifat o'r cyfarfod blaenorol a gofnodwyd yn gyhoeddus.<br>• Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Grŵp Rheoli Risg.<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.<br>• Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol i'w Gwblhau.<br>• Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig Archwilio Mewnol: Cyflawni Arbedion – Ysbyty Glan Clwyd.<br>• Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig Archwilio Mewnol: Arolwg Staff GIG Cymru<br>• Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig Archwilio Mewnol: Recriwtio – Staff Meddygol a Deintyddol.<br>• Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig Archwilio Mewnol: Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd.<br>• Diweddariad ar Raglen Archwilio Cymru<br>• Adroddiad Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru<br>• Archwilio Cymru: Asesiad Strwythuredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Archwilio Cymru: Adolygu Trefniadau Rheoli Gofal Iechyd Parhaus<br>• Archwilio Cymru: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru<br>• Diweddariad ar Lywodraethu Ariannol yn ystod Covid-19<br>• Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Cronfeydd Elusennol<br>• Rhestr Hawliadau Ariannol<br>• Adroddiad Ailddatblygu Ablett<br>• Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd<br>• Cynllun Archwilio Clinigol<br>• Adroddiad Cydymffurfiad Ariannol<br>• Adroddiad KPMG ar Ysbytai Maes a Cholledion Canlyniadol Ysbytai Maes<br>• Adroddiad ar Gynnydd Atal Twyll<br>• Diweddariad ar Argymhellion yr Archwiliad Mewnol/Allanol |

| | |
|---|---|
| **Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:** | • Cymeradwywyd **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth** ar ôl gwneud mân newid i adran 3.1.3.<br>• Nodwyd bod yr **Adroddiadau Pwyllgor Blynyddol** canlynol wedi'u cymeradwyo gan Gam Gweithredu'r Cadeirydd; y Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl (gan gynnwys trosolwg o waith yr Is-bwyllgor Pŵer Rhyddhau); y Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth; y Fforwm Partneriaeth Leol.<br>• Derbyniwyd a chymeradwywyd strwythur/fformat **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**.<br>• Derbyniwyd y **Gofrestr Risg Gorfforaethol** gan nodi'n falch fod y tîm Rheoli Risg wedi gosod targed i'w hunain i hyfforddi 1,000 o aelodau staff.<br>• Derbyniwyd diweddariad ar **adroddiad Cronfa Gyfunol Gogledd Cymru** a'r gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r cymhlethdodau.<br>• Derbyniwyd y **Diweddariad ar Lywodraethu Ariannol yn ystod Covid-19** gan nodi'n falch fod yr holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn ac yn symud ymlaen.<br>• Derbyniwyd **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Cronfeydd Elusennol** a chytunwyd bod yr adroddiad ar ei newydd wedd yn llawer gwell ac yn hawdd ei ddefnyddio.<br>• Derbyniwyd yr **Adroddiad Ailddatblygu Ablett** a nodwyd bod y rheolaethau sydd ar waith yn mynd i'r afael â'r materion.<br>• Derbyniwyd y **Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd** a chytunwyd i daro golwg ar yr effaith a'i effeithiolrwydd ym mis Medi 2021.<br>• Cymeradwywyd y **Cynllun Archwilio Clinigol**.<br>• Derbyniwyd **Adroddiad KPMG ar Ysbytai Maes a Cholledion Canlyniadol Ysbytai Maes** a nodwyd y byddai'r argymhellion yn cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Tîm Gweithredol i'w rhoi ar waith.<br>• Derbyniwyd yr **Adnodd Tracio Argymhellion Archwiliad** gan nodi'n falch fod y cynnydd o ran gweithredu wedi parhau, er gwaethaf pwysau gweithredol y pandemig. |
| **Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir** | • Nodwyd nad oedd cworwm unwaith eto yn y **Grŵp Rheoli Risg** a holwyd pam fod y cyfarfod diwethaf wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r rheswm oedd bod trefniadau Dros dro ar waith. Caiff hyn ei godi gyda'r tîm Gweithredol a bydd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ailafael ynddi fel Cadeirydd y Grŵp Rheoli Risg ym mis Ionawr 2021.<br>• Nodwyd â phryder fod risg (ID risg 3739 gyda sgôr o 8 ar hyn o bryd) wedi codi ac ni fyddai'r **Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg** o bosibl yn gallu gweithredu arni'n amserol nac yn gadarn. Y rheswm dros hyn oedd bod nifer y risgiau lefel uchel wedi'u tanamcangyfrif. Mae'r tîm Rheoli Risg yn dal wrthi'n cynnal adolygiadau ac archwiliadau ansawdd. |

| | |
|---|---|
| | • Nodwyd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau'r gwaith nodi **amcanion corfforaethol**, dim ond blaenoriaethau. Nododd yr aelodau fod amcanion wedi'u pennu ar gyfer chwarter tri a phedwar.<br>• Nodwyd y risg ynghylch **Ymadael â'r UE** ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Cafodd yr aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a'r goruchwylio sy'n mynd rhagddo a chawsant wybod y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar y gofynion adrodd cyn bo hir.<br>• Nodwyd y byddai'r argymhellion syn deillio o'r **adroddiadau sicrwydd cyfyngedig** (Cyflwyno Arbedion - Ysbyty Glan Clwyd, Arolwg Staff GIG Cymru, Recriwtio - Staff Meddygol a Deintyddol, a'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd) ac adroddiad Archwilio Cymru (Asesiad Strwythuredig, Trefniadau Rheoli Gofal Iechyd Parhaus) yn cael eu monitro gan adnodd tracio Canolog y Tîm.<br>• Nodwyd bod rhaid gohirio llawer o'r gwaith Archwilio Mewnol oherwydd y galwadau ar y timau gweithredol wrth i'r Bwrdd Iechyd reoli ail don o'r pandemig. Fodd bynnag, dywedwyd wrth yr Aelodau y **byddai unrhyw oedi pellach neu dynnu rhagor o adolygiadau o'r Cynllun Archwilio Mewnol** yn effeithio ar allu'r Pennaeth Archwilio Mewnol i roi barn sicrwydd lawn.<br>• Nodwyd cynnydd mewn **gweithredoedd tendrau sengl** a chytunwyd y dylid cynnal adolygiad o Archebion Prynu fesul cyflenwr i weld a oes angen ymchwilio ymhellach.<br>• Nodwyd cynnydd yn nifer a gwerth **gordaliadau cyflog**. Cytunodd yr aelodau y dylid cyflwyno rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn canfod y gyfran ar gyfer staff a oedd wedi gadael y Bwrdd Iechyd. |
| **Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall** | • Adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig fel y bo'n briodol. |
| **Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:** | • Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth – i'w gymeradwyo (yn amodol ar y newid i adran 3.1.3 bod 'gweithwyr proffesiynol perthynol' yn cael ei newid am 'gweithwyr proffesiynol cofrestredig')<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (sylwer bod hyn ar agenda'r Bwrdd)<br>• Rhestr Hawliadau Ariannol – i nodi'r rhestr o hawliadau a gymeradwywyd<br>• Cynllun Archwilio Clinigol – i gadarnhau cymeradwyo'r cynllun. |
| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Pwrpas y Pwyllgor Archwilio yw cynghori a sicrhau'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol bod trefniadau effeithiol ar waith – drwy lunio a gweithredu system sicrwydd y Bwrdd Iechyd. O'r herwydd, mae'r Pwyllgor yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy yn eu hystyr ehangaf, ond mae'r ffocws yn benodol ar sicrhau bod adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn cefnogi'r egwyddor o neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. |

| | |
|---|---|
| **Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd, yn ogystal â:<br>• Adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Sicrwydd Deddfwriaethol<br>• Cytuno ar gylch busnes y Pwyllgor Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 18/03/2021 |

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Iechyd**<br><br>**21/01/2021** | GIG CYMRU NHS WALES \| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board<br>*Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 3 Tachwedd 2020 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Mrs Lucy Reid |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Mrs Debra Hickman, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:** | Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol:<br>• Adroddiad Monitro Cynllun Chwarter 2 dyddiedig Medi 2020<br>• Adroddiad ar Berfformiad Ansawdd dyddiedig Medi 2020<br>• Gwasanaethau hanfodol a chynnydd ar ofal wedi'i gynllunio a'r gwaith ar ddosbarthiad risg<br>• Adroddiad Atal Heintiau ar gyfer y cyfnod Gorffennaf – Medi 2020<br>• Adolygiad o Achosion Covid-19 a Gafwyd yn yr Ysbyty ym Maelor Wrecsam ac adroddiad y Grŵp Cyflawni, ynghyd â'r rhaglen waith a ddatblygwyd<br>• Diweddariad ar Ddiogelwch Cleifion Chwarter 2<br>• Adroddiad Digwyddiadau Difrifol ar gyfer y cyfnod rhwng Awst a Medi 2020<br>• Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr ar gyfer y cyfnod rhwng Awst a Medi 2020<br>• Cynllun Archwilio Clinigol ar gyfer 2020/21<br>• Adolygiad o Farwolaethau ar gyfer chwarter 2<br>• Diweddariad ar Wasanaethau Fasgwlar dyddiedig Tachwedd 2020 ynghyd ag adnodd tracio camau gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen<br>• Diweddariad ar waith yr adolygiad o Adroddiad Holden<br>• Diweddariad ar yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth yr Uwch Adran<br>• Diweddariad ar yr Adolygiad Llywodraethu Ansawdd gan gynnwys y cylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer is-grwpiau<br>• Crynodeb o waith y Grŵp Llywio ar gyfer yr Ymchwiliad i Ddatgelu Camarfer mewn Therapi Iaith a Lleferydd gan gynnwys cylch gorchwyl y grŵp, yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad a'r cynllun gweithredu<br>• Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer Uned Seiciatrig Heddfan a'r adroddiadau gwirio ansawdd Haen 1 arfaethedig ar gyfer:<br>    o Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd,<br>    o Ward 11, Ysbyty Glan Clwyd,<br>    o Ward Bonney Cohort, Ysbyty Maelor Wrecsam<br>• Polisi a Gweithdrefn Archwilio Clinigol |

| | |
|---|---|
| | • Lefelau Staffio Nyrsys a gohebiaeth gan y Prif Swyddog Nyrsio ar gyfer y canllawiau yn ystod Covid-19<br>• Diweddariad Iechyd a Diogelwch ar gyfer chwarter 2<br>• Adroddiad Blynyddol ar gyfer CEM Berwyn<br>• Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Diogelwch ac Ansawdd Cleifion ar gyfer 9 Hydref 2020<br>• Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol ar gyfer 15 Hydref 2020<br>• Diweddariad y Pwyllgor Archwilio<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor hefyd Adroddiad yr Archwiliad Mewnol ar Ddadhalogi er gwybodaeth. |
| **Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:** | • Roedd yr adolygiad o'r Achosion o COVID-19 a Gafwyd mewn Gofal Iechyd ym Maelor Wrecsam wedi canfod gwersi i'w dysgu ac roedd hefyd yn gyfle i staff drafod eu profiadau a'u pryderon. Roedd Grŵp Cyflawni Covid-19 wedi drafftio cynlluniau gwaith ategol er mwyn bwrw ymlaen â'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad a'r achosion. Mae'r rhain yn cael eu rhannu ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>• Nododd y Pwyllgor yr amserlenni sylweddol yn ymwneud â'r ymchwiliad i Therapi Iaith a Lleferydd a'r camau gweithredu dilynol. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynlluniau i ganoli ymchwiliadau i'r tîm corfforaethol a safoni'r broses ar gyfer comisiynu ymchwiliadau gyda'r nod o sicrhau y byddai pryderon a godwyd gan staff yn cael eu harchwilio'n drylwyr, yn annibynnol ac yn fwy amserol.<br>• Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ar ddosbarthu risg ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, gan gydnabod bod capasiti 40% yn llai na chyn Covid-19. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran blaenoriaethu cleifion yn ôl eu risg glinigol a defnyddio'r dull "Unwaith ar gyfer Gogledd Cymru". |
| **Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir** | • Nododd y Pwyllgor broblemau capasiti yn y tîm Atal a Rheoli Heintiau a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar y tîm hefyd. Roedd y Tîm Gweithredol wedi cefnogi achos busnes i gynyddu adnoddau a chapasiti o fewn y tîm gan symud ymlaen â'r broses recriwtio. |
| **Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall** | Dim |
| **Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:** | Dim |
| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan** | Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws yr holl agenda. |

| | |
|---|---|
| **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | |
| **Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Mae'r agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau wedi newid o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am adnoddau a'r blaenoriaethau o ganlyniad i lefel uwch o achosion Covid-19 yng Ngogledd Cymru. O ganlyniad, mae nifer o eitemau wedi cael eu gohirio. |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 15 Ionawr 2021 |

V1.0

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd<br><br>21/01/2020 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board<br>*Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

## Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21/12/2020 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Mark Polin Cadeirydd BIPBC |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |
| **Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:** | Trafodwyd yr eitemau canlynol yn y cyfarfod pwyllgor a gynhaliwyd ar 21.12.20<br><br>• Monitro Cynllun Gweithredol Chwarter 3 a 4<br>• Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad<br>• Fframwaith Rheoli Perfformiad Diwygiedig a'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiadau atebolrwydd<br>• Diweddariad am Ofal wedi'i Gynllunio<br>• Diweddariad am Ofal Heb ei Drefnu<br>• Adroddiad Rhaglen Gyfalaf Mis 7<br>• Gwerthusiad Cyfun Diwedd Prosiect o'r Canolfannau Integredig Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thrydydd Sector ym Mlaenau Ffestiniog, Fflint a Llangollen<br>• Adroddiad Cyllid Mis 7<br>• Adroddiad Arbedion Mis 8<br>• Datblygu Cynllun 2021/24<br>• Adnodd tracio achosion busnes ar gyfer achosion busnes refeniw a chyfalaf<br>• Ymgynghoriad Tryloywder mewn cadwyni cyflenwi – ymateb y Llywodraeth<br>• Adroddiad monitro misol Mis 8<br>• Diweddariad ar gontractau allanol<br><br>*Sesiwn breifat:*<br>• Achos Amlinellol Strategol Llety Preswyl<br>• Dyfarnu contractau:<br>    ▪ Gwasanaethau Cydymffurfio â Hylendid Dŵr<br>    ▪ Casglu Gwastraff Domestig, Cyffredinol a Deunyddiau y Gellir eu Hailgylchu<br>    ▪ Adnewyddu System TG ar gyfer Gofal Sylfaenol Brys a Chysylltu/Ffonio'n Gyntaf<br>• Dechrau proses dendro: Llif Cytometreg<br>• Cymorth Ariannol Strategol Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | • Diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni Argymhellion PWC |
| **Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:** | • Roedd y perfformiad yn erbyn y targedau canser yn dal yn gadarnhaol gyda 100% o gleifion ar y llwybr 31 diwrnod yn cael eu trin o fewn 31 diwrnod ac 84% (1% yn brin o'r targed 85%) o gleifion ar y llwybr 62 diwrnod yn cael eu trin o fewn 62 diwrnod<br>• Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cleifion a oedd wedi profi dros 8 wythnos o oedi cyn cael prawf diagnostig neu 14 wythnos ar gyfer therapi.<br>• A ninnau yng nghanol ail don y pandemig, roedd Gwasanaethau Hanfodol yn dal ar gael ond roedd mwy o bwysau ar y system<br>• Roedd y Fframwaith Atebolrwydd Perfformiad newydd wedi cael ei roi ar waith<br>• Roedd gwaith yn mynd rhagddo gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i wella'r broses drosglwyddo o ambiwlansys ac roedd Llywodraeth Cymru yn helpu i ddarparu POD ar y safle o 23.12.20 ymlaen.<br>• Dywedodd Cyfarwyddwr Clinigol Orthopedig a Thrawma Ysbyty Glan Clwyd fod angen mwy o gapasiti, gan ganmol cynnydd y Canolfannau Diagnostig a Thriniaeth er mwyn symud ymlaen yn arloesol o safleoedd gofal eilaidd sy'n cael eu cefnogi gan glinigwyr yn yr ardal hon<br>• Rhoddodd yr Offthalmolegydd Ymgynghorol syniad o'r heriau a wynebir gan wasanaethau yn ystod y pandemig, gan gynnwys mwy o ddefnydd o ymarferwyr optometreg ar gyfer rhai triniaethau ond bod hynny'n arwain at wariant cysylltiedig cynyddol.<br>• Yn dilyn trafodaeth ar niwed, rheoli'r galw a'r angen i barhau i gyfathrebu â chleifion tra'u bod yn disgwyl er mwyn sicrhau monitro effeithiol a gwella ansawdd eu taith, cadarnhawyd bod hyn yn mynd rhagddo drwy ddefnyddio dull hyb cleifion<br>• Mynegwyd hyder o ran bodloni'r Cyfyngiad Adnoddau Cyfalaf (CRL)<br>Sicrwydd allweddol mewn perthynas â'r adroddiad Cyllid:<br>▪ Adroddwyd sefyllfa gwarged ar gyfer y mis presennol a'r flwyddyn hyd yma yn erbyn y cynllun<br>▪ Rhagwelir sefyllfa gytbwys ar gyfer y flwyddyn<br>▪ Yr holl dargedau ariannol allweddol ar gyfer arian parod, cyfalaf a PSPP yn cael eu cyflawni.<br>▪ Rhagwelir cynnydd o £0.7m mewn arbedion yn ystod y mis<br>▪ Effaith cost lawn Covid19 yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru<br>• Roedd cyflwyno'r adnodd tracio achosion busnes ar gyfer achosion refeniw a chyfalaf yn rhoi mwy o sicrwydd am y broses a throsolwg i'r Pwyllgor |
| **Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir** | • Pryder yn y Cynllun Gweithredol yn ymwneud â cham gweithredu coch 17.7 Iechyd Digidol: Cam 3 System Gweinyddu Cleifion Cymru yn canolbwyntio o'r newydd ar ei weithredu yn y Gorllewin. Bydd papur briffio'n cael ei baratoi ar adnoddau. Roedd y Pwyllgor yn poeni sut roedd materion |

| | |
|---|---|
| | datblygu system genedlaethol yn effeithio ar weithrediadau Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Roedd data perfformiad anghywir yn effeithio ar allu'r Pwyllgor i fonitro'r Cynllun Gweithredol a pherfformiad yn effeithiol. Cytunodd y Prif Weithredwr Dros Dro i roi sylw i hyn.<br>• Gyda Gofal wedi'i Gynllunio, roedd pryder ynghylch nifer y cleifion heb drefnu apwyntiad (47k) a bod y nifer sylweddol o gleifion a oedd yn aros dros 52 wythnos yn cynyddu o fis i fis<br>• Ar ôl ystyried y tueddiadau o ran adrodd ar absenoldeb oherwydd salwch, byddai data ar weithio gartref yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro unrhyw effaith bosibl<br>• Roedd sicrhau nad oedd cysylltiad rhwng cleifion Covid19 (Coch) a chleifion Heb Covid (Gwyrdd) mewn Adrannau Brys wedi golygu bod bron 40% yn llai o gapasiti – ac roedd hefyd wedi golygu bod llai o gapasiti ar wardiau<br>• Roedd apwyntiadau Orthopedeg ac Offthalmoleg ar ei hôl hi tra bod arbenigeddau eraill wedi gwella eu lefelau gweithgarwch – yn fwyaf penodol, llawdriniaethau cyffredinol. Gwahoddwyd clinigwyr o'r adrannau Orthopedeg ac Offthalmoleg i'r cyfarfod i drafod y sefyllfa<br>• Nodwyd y cynllun 6 phwynt Gofal wedi'i Gynllunio a'r amserlenni, gan gynnwys darparu Achos Amlinellol Strategol DTC i'r Pwyllgor a'r Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2021<br>• Yn dilyn pryder y Pwyllgor ynghylch faint o amser yr oedd cleifion yn aros, cytunwyd y byddai data cymharol o Fyrddau Iechyd eraill yng Nghymru yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad nesaf i ystyried a oedd amseroedd aros Betsi Cadwaladr yn dirywio'n gynt na sefydliadau eraill.<br>• O ran Llawdriniaeth Roboteg, roedd y broses gaffael genedlaethol wedi symud ymlaen gyda phenderfyniad i dderbyn y robot cyntaf a brynwyd drwy gaffael cenedlaethol ar gyfer Gogledd Cymru. Cynghorwyd y byddai hyn yn golygu lliniaru risg am 4-6 mis. Mynegodd y Pwyllgor ei siom ynghylch yr oedi gan y gallai unrhyw oedi pellach olygu bod cleifion Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu heffeithio'n andwyol. Gofynnwyd am nodyn esboniadol ynghylch pam fod y penderfyniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd wedi newid.<br>• Ar ôl cyflwyno Achos Busnes yr Alex, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am eglurhad pellach am y costau cynyddol a rhagor o fanylion am yr opsiwn economaidd, cynaliadwyedd a'r datrysiad dylunio<br>Meysydd i'w gweithredu neu i'w nodi mewn perthynas â'r Adroddiad Cyllid:<br>▪ Adolygu rhagolygon gwariant Covid19, yn unol â'r cynlluniau diwygiedig a'r rhai sy'n esblygu ar gyfer rheoli'r pandemig<br>▪ Trosi £2.5m o gynlluniau arbedion sydd ar y gweill i gynlluniau gwyrdd/oren |

| | |
|---|---|
| | ▪ Symud at gynlluniau darparu ar gyfer gofal heb ei drefnu, gofal wedi'i gynllunio a chynlluniau o gynllun Chwarter 3 / 4<br>▪ Parhau i drafod â Llywodraeth Cymru am bosibilrwydd cario gwyliau blynyddol drosodd a'r goblygiadau cost<br>• Ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon Profi, Olrhain, Diogelu, Covid19, y rhaglen frechu ac ysbytai maes.<br>• Diffyg sylweddol o £18.6m yn erbyn y targed arbedion o £25.8m yn y flwyddyn hyd yma. Fodd bynnag, roedd hyn yn dda o'i gymharu â Byrddau Iechyd eraill o ystyried yr hinsawdd bresennol.<br>• O ran datblygu cynllun 2021-24, roedd hi'n bwysig sicrhau bod cydgysylltiad strategol o fewn y sefydliad a dyma fydd y flaenoriaeth dros y 3 mis nesaf. |
| **Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall** | Dim |
| **Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:** | Dim materion |
| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth briodol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. |
| **Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd, yn ogystal â:<br>• Achos Amlinellol Strategol y Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig<br>• Llythyr Dyrannu 2021/22<br>• Gofal wedi'i Gynllunio<br>• Gofal heb ei Drefnu |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 28/01/2021 |

V1.0 wedi'i gymeradwyo

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd<br><br>21ain Ionawr 2020 | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board<br>*Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 8fed Rhagfyr 2020 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Jackie Hughes |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Sue Hill, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |
| **Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:** | • Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2019/20<br>• Adroddiad Cyllid Cronfeydd Elusennol Ch2 2020/21<br>• Adroddiad Codi Arian Cronfeydd Elusennol Ch2 2020/21 (*gan gynnwys y Strategaeth Elusennau a'r wybodaeth ddiweddaraf am Apeliadau Strategol*)<br>• Adroddiad Grwpiau'r Trydydd Sector<br>• Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Loteri Staff<br>• Portffolio Buddsoddi<br>• Crynodeb o'r Gwariant a Gymeradwywyd<br>• Polisi Marchnata, Hysbysebu a Nawdd<br>• Adroddiad Effaith Elusennau |
| **Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:** | **Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru:**<br>Dywedodd yr Uwch Archwilydd wrth y pwyllgor eu bod yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar ôl i'r Llythyr Cynrychiolaeth ddod i law.<br>Llofnodwyd y Llythyr Cynrychiolaeth ar ôl y cyfarfod a'i gyflwyno i Archwilio Cymru ar 8fed Rhagfyr 2020.<br><br>**Portffolio Buddsoddi**:<br>Dywedodd Cyfrifydd yr Elusen wrth y pwyllgor fod y Rheolwr Buddsoddi, Brewin Dolphin, yn barod i ymgymryd â'r portffolio. Ar ôl cymeradwyo bydd modd cysylltu â Rothschild i symud y portffolio drosodd gan fod yr holl ddiwydrwydd dyladwy wedi cael ei gwblhau. |
| **Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir** | |
| **Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall** | **Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Loteri Staff:**<br>Cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw mewn cytundeb â'r Gweithlu i fynd â'r papur yn ôl i gyfarfod y Fforwm Partneriaeth Lleol ym mis |

| | |
|---|---|
| | Ionawr 2021 ar gyfer adolygiad undebau llafur a chonsensws cyn cymryd unrhyw gamau pellach. |
| **Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:** | |
| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | • Mae datblygu strategaeth ar gyfer cymynroddion a rhoddion yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi blaenoriaeth cynllunio tymor hir WBFGA.<br>• Mae gweithio gyda phartneriaid wrth galon codi arian, yn enwedig gyda gwirfoddolwyr, pobl sy'n codi arian ac elusennau eraill drwy Gytundebau Cydweithio.<br>• Mae'r Grŵp Cynghori yn enghraifft ymarferol dda o gynnwys y rheini sydd â diddordeb yn y broses o wneud penderfyniadau wrth ddyrannu cyllid grant.<br>• Mae Cronfeydd Elusennol yn sbardun i gefnogi'r agenda atal drwy gyfleoedd cyllido a thrwy gyd-fynd â blaenoriaethau LHSW y Bwrdd Iechyd. |
| **Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd a:<br>• Bydd Rheolwr Buddsoddi Brewin Dolphin yn dod i gyfarfod y pwyllgor ac i gwrdd â'r tîm.<br>• Bydd diweddariad arall yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar Grwpiau'r Trydydd Sector. |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 9fed Mawrth 2021 |

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Iechyd**<br><br>**21/01/2021** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board<br>*Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 8 Rhagfyr 2020 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Mrs Lucy Reid |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Miss Teresa Owen |
| **Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:** | Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol:<br>• Diweddariad ar y sefyllfa o ran cadw plant dan 15 oed yn gaeth a chynnal asesiadau brys ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a'r Glasoed (CAMHS)<br>• Papur briffio ar y sefyllfa bresennol o ran recriwtio a rheoli clinigwyr cymeradwy a meddygon Adran 12(2)<br>• Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar draws y Bwrdd Iechyd<br>• Adroddiad perfformiad ar y Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng Gorffennaf a Hydref 2020<br>• Adroddiad Monitro Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gan gynnwys cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor<br>• Adroddiad Diweddaru Rheolwyr Ysbytai yn manylu ar weithgarwch y Rheolwyr Ysbytai Cyswllt yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf a Hydref 2020 |
| **Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:** | • Defnyddiwyd platfformau rhithiol i alluogi Rheolwyr Ysbytai Cyswllt i barhau â'u gwaith dros y cyfnod hwn |
| **Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir** | • Nododd y Pwyllgor â phryder y trafodaethau sydd heb eu datrys i fynd i'r afael â recriwtio a rheoli meddygon Adran 12(2) er gwaethaf sawl cais i roi sylw i hyn. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno bod angen i'r Prif Arweinwyr Gweithredol gyfarfod i gadarnhau sut caiff y materion hyn eu rheoli a bod angen dull gweithredu aml-ddisgyblaethol. |
| **Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall** | Amherthnasol |
| **Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:** | • Dim materion penodol i'w huwchgyfeirio, ond dylid nodi bod y cylch gorchwyl a'r trefniadau adrodd ar gyfer y Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl a'r Is-bwyllgor Pŵer Rhyddhau yn mynd i gael eu |

| | |
|---|---|
| | hadolygu a chytunwyd ar amserlen ar gyfer cwblhau hyn erbyn mis Mawrth 2021 |
| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddigonol i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws yr holl eitemau ar yr agenda. |
| **Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd, yn ogystal â:<br>• Cylch gorchwyl a chylch busnes diwygiedig |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 12 Mawrth 2021 |

V1.0

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd<br><br>21.1.21 | *Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

## Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10.12.20 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Lyn Meadows, Aelod Annibynnol |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Mark Wilkinson Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad |
| **Crynodeb o'r busnes a drafodwyd:** | • Monitro cynllun cyflenwi Chwarter 3/4<br>• Datblygu Cynllun Cyflenwi 2021/2<br>• Datblygu Canolfannau Triniaeth Ddiagnostig i roi cefnogaeth strategol i'r gofal arfaethedig<br>• Y diweddaraf am Barhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfwng<br>• Cynnydd yn y Strategaeth Ddigidol<br>• Y diweddaraf am Brofi, Olrhain ac Amddiffyn<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac<br>    o wedi derbyn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br>• Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a cherrig milltir wrth gyflawni<br>• Y diweddaraf am Gronfa Drawsnewid Plant, Pobl Ifanc/CAMHS<br>• Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau y Bwrdd Cynllunio Ardal<br>• Y diweddaraf am Wasanaethau Strôc<br>• Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Y ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol<br>• Covid-19 a'r Effaith ar Bobl â Nodweddion Gwarchodedig: y Cyd-destun Cydraddoldeb a'r Fframwaith<br>• Is-grwp Economaidd-gymdeithasol COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) Adroddiad ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau negyddol o ran COVID-19 i unigolion o gefndiroedd BAME, ac ymateb Llywodraeth Cymru i hynny.<br>• Arolwg Pwls<br>• Y diweddaraf am Iechyd a Llesiant y Staff, a'r Safon Iechyd Corfforaethol.<br>• Y diweddaraf am risg pontio'r UE<br>Mae'r papurau a'r cofnodion drafft ar gael drwy'r ddolen isod: |

| | |
|---|---|
| | https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-strategaeth-partneriaethau-ac-iechyd-y-boblogaeth/ |
| **Y prif elfennau sicrwydd a ddarparwyd yn y cyfarfod hwn:** | **SP20/77 Datblygu Cynllun Cyflenwi 2021/2**<br>Cafodd y Pwyllgor wybod am yr agweddau cadarnhaol a ddaeth yn ystod pandemig Covid19 drwy ddysgu sefydliadol, rhagor o ystwythder, gwaith ymgysylltu da a dulliau cryfach o reoli rhaglenni, a wnaeth yn sicr fod cynlluniau blaenoriaeth ar y gweill eisoes. Adroddwyd bod prosesau newydd wedi cael eu cyflwyno hefyd i wella ansawdd gwaith cynllunio<br>**SP20/78 Datblygu Canolfannau Triniaeth Ddiagnostig i roi cefnogaeth strategol i'r gofal arfaethedig**<br>Cyflwynwyd y cysyniad o Ganolfannau Triniaeth Ddiagnostig, ac roedd hyn wrthi'n cael ei archwilio er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried. Roedd model y Canolfannau Triniaeth Ddiagnostig yn seiliedig ar ddull gofal symudol, a darparwyd enghreifftiau o'r manteision y gallai poblogaeth Gogledd Cymru eu cael ynghyd â diagnosteg gadarn a thriniaeth amserol. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol iawn i'r datblygiad posibl, gan gydnabod bod cyfleoedd enfawr i'r gweithlu allu datblygu staff mewn gwahanol ffyrdd.<br>**SP20/80 Strategaeth galluogydd allweddol : Cynnydd yn y Strategaeth Ddigidol**<br>Fe wnaeth y Pwyllgor ganmol y gwaith a wnaed, a nodwyd hefyd ei fod wedi cael derbyniad cadarnhaol gan Grwp Partneriaeth y Gweithlu, a hefyd wedi golygu cyfraniad sylweddol gan randdeiliaid.<br>**SP20/81 Y diweddaraf am Brofi, Olrhain ac Amddiffyn**<br>Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod unedau symudol wedi cael eu cyflwyno a bod profion llif unffordd wedi cael eu treialu ar gyfer rhai grwpiau o staff. Gallai hyn o bosibl alluogi gwelliannau i fynediad addysgiadol i ddisgyblion a myfyrwyr yn y dyfodol.<br>**SP20/82 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**<br>Cafwyd ar ddeall fod y Strategaeth Gofal Dementia wedi cael ei threfnu i'w hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<br>**SP20/85 Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a cherrig milltir wrth gyflawni**<br>Roedd y Bwrdd Iechyd wedi darparu ei gynlluniau i ymateb i'r gofynion sydd yn Fframwaith Gweithredu Covid 19 GIG Cymru ar gyfer chwarteri 3 a 4 2020/21, ac roedd wedi cyflwyno'r rhain i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 19.10.20. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad yr ymarferwyr annibynnol hyn yn ystod y cyfnod heriol hwn o'r pandemig, ac roeddent yn mynegi eu pryder am eu llesiant a'u gallu i barhau ar ochr arall y pandemig.<br>**SP20/87 Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - y ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**<br>Roedd yr adroddiad yn nodi gofyniad statudol y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol sy'n dod i rym ym mis Mawrth 2021. Byddai'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff perthnasol wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol, sef i roi |

| | |
|---|---|
| | sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb yn y canlyniadau, sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Nodwyd bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei gynnull ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol er mwyn cynghori'r Bwrdd Iechyd yn ei baratoadau ar gyfer dechrau'r Ddyletswydd a sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r modd y byddai'r Ddyletswydd yn cael ei chyflawni. Roedd y Pwyllgor yn canmol y dull a oedd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau y byddai'r gwaith o ystyried y ddyletswydd yn cael ei integreiddio yn y prosesau mewn ffordd syml ond effeithiol er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd statudol hon yn cael ei chyflawni. Pwysleisiodd y Pwyllgor mai'r ddyletswydd hon oedd 'Y peth iawn i'w wneud', ac roedd yn falch o nodi mai dyma oedd safbwynt partneriaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn yr Undebau Llafur ac Iechyd a Diogelwch a oedd yn triongli yn y gwaith hwn.<br>**SP20/87.1 Covid-19 a'r Effaith ar Bobl â Nodweddion Gwarchodedig: y Cyd-destun Cydraddoldeb a'r Fframwaith**<br>**SP20/87.2 Is-grwp Economaidd-gymdeithasol COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) Adroddiad ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau negyddol o ran COVID-19 i unigolion o gefndiroedd BAME, ac Ymateb Llywodraeth Cymru i hynny.**<br>Canmolwyd y modd cyflym yr oedd y Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi symud gwaith yn ei flaen yn y maes hwn yn ystod ton gyntaf y pandemig. Roedd hyn wedi bod yn gymorth i wneud penderfyniadau ac i baratoi ar gyfer yr ail don.<br>Cadarnhawyd y byddai Cynllun Effaith Cydraddoldeb Hiliol, mewn ymateb i Lywodraeth Cymru, yn cael ei symud ymlaen o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a byddai hefyd yn cynnwys y Tîm Ymgysylltu.<br>**SP20/88 Arolwg Pwls**<br>O ran yr ymatebion a gafwyd, nodwyd bod y sgôr gyffredinol 'brwdfrydedd tuag at y swydd' a 'hoffi gweithio i'r sefydliad' wedi codi, a bod nifer yr achosion o fwlio wedi gostwng. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, ond roedd gwaith yn mynd ymlaen gyda'r rheolwyr er mwyn gallu cymharu â chwestiynau tebyg yn 2018.<br>Rhoddwyd sylw i'r gwersi a ddysgwyd o'r ymateb i bandemig Covid19, a chafwyd ar ddeall y byddai'r Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd, sy'n cael ei symud ymlaen gan y Pennaeth Llywodraethu Dros Dro, yn cynnwys ymatebion i adborth gan staff. Roedd rhaglen Datblygu Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn cael ei datblygu dros y 3 blynedd nesaf. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth ychwanegol yn y maes hwn. Fe wnaeth y Pwyllgor ganmol y gwelliannau a gafwyd yng nghyd-destun yr ymateb i bandemig Covid-19.<br>**SP20/89 Y diweddaraf am Iechyd a Llesiant y Staff, a'r Safon Iechyd Corfforaethol.** |

| | |
|---|---|
| | Fe wnaeth y Pwyllgor gydnabod a chanmol y Tim Iechyd Galwedigaethol am eu cymorth i'r Bwrdd Iechyd drwy gydol y pandemig, gan gynnwys yn y maes critigol cyfredol, sef brechu. |
| **Y prif risgiau, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir** | **SP20/76 Monitro'r cynllun cyflenwi Chwarter 3 a 4, 2020/21**<br>Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor am gael rhagor o dystiolaeth, ynghyd â naratif gwell, yn yr adroddiad i'r cyfarfod nesaf er mwyn darparu trywydd archwilio effeithiol o'r holl flaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ac oedd wedi cael eu gwrthod oherwydd diffyg cyflawni. Hefyd, cytunwyd ar drefniadau i sicrhau bod blaenoriaethau na chyflawnwyd yn Chwarteri 1 a 2 yn cael eu cofnodi ar ddiwedd y flwyddyn.<br>**SP20/77 Datblygu Cynllun Cyflenwi 2021/2**<br>Bu'r Pwyllgor yn trafod sut cafodd y ffactorau risg eu cyfleu yn y cynllun. Yna, cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio nesaf ar 17.12.20. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro gefnogi'r defnydd o risg fel sbardun ar gyfer newid. Cytunwyd y byddai'r amserlen yn cael ei diweddaru i gynnwys dyddiadau ar gyfer cyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth, i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, ac i'r Bwrdd. Ar ôl hynny, byddai'r amserlen yn cael ei dosbarthu i holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd.<br>**SP20/78 Datblygu Canolfannau Triniaeth Ddiagnostig i roi cefnogaeth strategol i'r gofal arfaethedig**<br>Cafodd y Pwyllgor wybod am y nifer gynyddol o gleifion sy'n aros y tu hwnt i 36 wythnos, a nodwyd bod cynllun 6 phwynt wedi cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r sefyllfa a amlinellwyd yn yr adroddiad.<br>**SP20/79 Y diweddaraf am Barhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfwng**<br>Nododd Pennaeth Archwilio Mewnol fod cefnogaeth i gynyddu capasiti, ond bod risg hefyd o ran ymgysylltu o fewn is-adrannau a bod angen perchnogaeth weithredol. Nodwyd bod y gwaith o gwblhau cynlluniau parhad busnes wedi cael ei gynyddu, a disgwylid i'r rhain gael eu cwblhau erbyn y flwyddyn nesaf.<br>**SP20/81 Y diweddaraf am Brofi, Olrhain ac Amddiffyn**<br>Darparwyd datblygiadau pellach ers cyhoeddi'r adroddiad, gan gynnwys cyflwyno dull braenaru gyda nifer fach o staff yn profi ddwywaith yr wythnos, gan ddechrau ym mis Ionawr fel cynllun peilot – i ddechrau yn y Dwyrain lle'r oedd nifer o achosion ar y pryd.<br>**SP20/82 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**<br>O ran y £12m ar gyfer cronfeydd trawsnewid gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, dywedwyd y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 11.12.20.<br>**SP20/85 Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a cherrig milltir ar gyfer cyflawni**<br>Tynnwyd sylw at y 6 blaenoriaeth y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer chwarter 3 a 4, gan gyfeirio at y meysydd heriol ymhob un<br>• Darparu gwasanaethau hanfodol<br>• Achosion lleol neu ail achosion o COVID-19<br>• Cartrefi Gofal |

| | |
|---|---|
| | • Ailsefydlu<br>• Gwasanaethau cymunedol camu i fyny a chamu i lawr<br>• Gofal sylfaenol brys<br>**SP20/86 Y diweddaraf am Gronfa Drawsnewid Plant, Pobl Ifanc/CAMHS**<br>Wrth drafod y gwasanaethau a ddarperir drwy'r cyllid trawsnewid, cadarnhawyd bod y cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei leihau ond byddid yn cytuno ar y blaenoriaethau ym maes parhad yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 11.12.20. Holodd y Pwyllgor i ba raddau roedd y gwasanaethau yn gynaliadwy pan wnaeth y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ddod i ben. Cytunwyd i gyfeirio yn yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor at effeithiau ar CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc).<br>**SP20/84 Gwasanaethau Strôc**<br>Nodwyd bod y gwaith o ddatblygu'r achos busnes wedi ailddechrau, gan ganolbwyntio ar achosion busnes Adsefydlu a Rhyddhau Cynnar gyda Chymorth yng ngham 1, a byddai'n cynnwys tystiolaeth glinigol newydd a gwersi a ddysgwyd o Covid19. Adroddwyd bod disgwyl i'r gwaith hwn ddod i ben erbyn 31.1.21. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r angen i symud ymlaen â gwelliannau yn y gwasanaeth.<br>**SP20/90 Diweddariad risg pontio'r UE**<br>Tynnwyd sylw yn yr adroddiad at y gwaith lliniaru sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE. Mae hyn yn cael ei fonitro mewn cyfarfodydd wythnosol ar hyn o bryd. |
| **Materion i'w cyfeirio at Bwyllgor arall** | Bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn nodi bod y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (SPPHC) wedi mynd i'r afael â'r camau a gyfeiriwyd at Wasanaethau Strôc fel yr uchod. |
| **Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:** | • Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol<br>• Risg pontio'r UE |
| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | *Roedd yr eitemau gafodd sylw'r Pwyllgor yn ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a nodir isod*<br>*1. Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr sy'n gwaethygu a chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol;*<br>*2. Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion;*<br>*3. Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a gofyn am eu barn;*<br>*4.Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu; a 5.Ystyried effaith ar bob nod llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill* |
| **Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Amrywiaeth o adroddiadau rheolaidd, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf yn y meysydd canlynol<br>• Monitro cynllun cyflawni Ch3 a 4 2020/21<br>• Datblygu cynllun 2021-24<br>• Ymgysylltu<br>• Gofal Sylfaenol<br>• Ymchwil ac Arloesi<br>• Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

| | |
|---|---|
| | • Asesiad Poblogaeth (dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 18.2.20 |

V1.0

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd<br><br>21/01/2021 | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board<br>*Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

## Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cynghori

| | |
|---|---|
| **Enw'r Grŵp Cynghori:** | Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14/12/2020 |

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cadeirydd:** | Ffrancon Williams |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Mark Wilkinson |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd:** | • Y diweddaraf am gynllunio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Datblygiad model y Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig (DTC)<br>• Y diweddaraf am Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>• Y diweddaraf am Ofal Sylfaenol |
| **Cyngor / adborth allweddol i'r Bwrdd:** | **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br>• cydnabod yr heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu yn yr hinsawdd presennol, ynghyd â'r cyllid sydd ar gael i fynd i'r afael â'r diffyg, a chyflawni cynlluniau sydd ddim i'w wneud â'r diffyg wrth symud ymlaen<br>• rydym yn pryderu am y problemau anghydraddoldeb iechyd y mae'r pandemig wedi'u hamlygu i grwpiau difreintiedig<br>• codi pryderon bod mynediad at ofal sylfaenol yn cael ei ystyried yn anodd ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb, yn enwedig i rai grwpiau<br>• nodi bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynd i'r afael â'i ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r rheini gyda nodweddion BAME sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur<br>**Datblygiad model y Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig (DTC)**<br>• cefnogi'r cynllun cyffrous hwn sydd ar lefel datblygiad Achos Amlinellol Strategol<br>• cydnabod y cyfleoedd i uwchsgilio staff ac i ail-ddylunio Atgyfeirio i Driniaeth a'r dull llwybr un stop sy'n seiliedig ar werthoedd<br>• cefnogi Pennaeth Dros Dro Gwelliannau wedi'u Cynllunio yn ei asesiad o'r angen am 2 ganolfan o ystyried daearyddiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gydnabod nad yw hyn wedi cael i ddiffinio ymhellach na chanolfan ddwyreiniol a |

| | |
|---|---|
| | chanolfan orllewinol ar hyn o bryd<br>**Y diweddaraf am Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**<br>• cefnogi datblygiadau'r Strategaeth Iechyd Meddwl a amlinellwyd, gan gynnwys cynnydd ac achos busnes amlinellol a strategol ar gyfer ailddatblygu Ablett<br>• cydnabod nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o dan fesurau arbennig mwyach ond bod gwaith i'w wneud o hyd<br>• cydnabod heriau o ran lefelau staffio, gan gynnwys mwy o salwch yn ystod y pandemig, a chroesawu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sydd hefyd yn cynnwys y sector gwirfoddol<br>• adlewyrchu ar yr angen i edrych ar gynllun cyfathrebu sydd hefyd yn egluro sut y gellid sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau iechyd meddwl ar gael<br>**Y diweddaraf am Ofal Sylfaenol**<br>• cefnogi'r newidiadau a'r addasiadau a gyflwynwyd yr ystod y pandemig Covid19<br>• adlewyrchu'r pryder gwirioneddol ymysg rhannau o'r gymuned eu bod yn ei chael yn anodd cael mynediad at nifer o wasanaethau gofal sylfaenol<br>• gofyn am sicrwydd o ran pa wasanaethau sydd ar gael i'w defnyddio; mae'n bwysig rhoi sicrwydd i'r cyhoedd o ran y ddarpariaeth ar hyn o bryd |
| **Busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Y diweddaraf am Gynllun 3 Blynedd / Cynllunio Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>Y diweddaraf am Ymgysylltiad â'r Strategaeth sydd wedi'i Galluogi'n Ddigidol<br>Y cynnydd yn natblygiad y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol<br>Darparu brechiad<br>Achosion busnes sy'n cael eu datblygu |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 22/03/2020 |

*Datgeliad:*
*Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr*

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Iechyd**<br><br>**21.01.21** | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board<br>*Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol* |

## Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cynghori

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Enw'r Grŵp Cynghori:** | Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (FfGPGI) |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 04.12.20 |

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cadeirydd:** | Mr Gareth Evans, Cynrychiolydd Therapïau |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Mr Adrian Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r eitemau allweddol a drafodwyd:** | • Roedd y Cadeirydd yn dymuno iddo gael ei nodi y cynhaliwyd y cyfarfod FfGPGI drwy blatfform rhithwir *Microsoft Teams*.<br><br>• **H20/37 Strategaeth Ddigidol – Andrea Williams a Jessica Thomas; Gwybodeg**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Andrea Williams (AW), Pennaeth Sicrwydd a Gwella Rhaglenni Gwybodeg a Jessica Thomas (JT), Uwch Swyddog Sicrwydd a Gwella Gwybodeg i drafod y Strategaeth Ddigidol a weithredwyd yn BIPBC. Dangoswyd cyfres o sleidiau cyflwyno i'r grŵp o'r enw "Ein Dyfodol Digidol – Gwella gofal drwy ffyrdd digidol o weithio" a oedd yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol:<br><br>• Ein Gweledigaeth<br>• Profiadau<br>• Ein Chwe Egwyddor o Weithio'n Ddigidol<br>• Ein Pedwar Her Allweddol<br><br>Cafwyd trafodaeth ryngweithiol a llawn gwybodaeth ynglŷn ag ymgysylltu'r strategaeth ddigidol ac integreiddio'r rhaglen drwy'r proffesiynau gofal iechyd lleol.<br><br>• **H20/38 Andrew Kent; Pennaeth Gofal Cynlluniedig (Dros Dro)**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Andrew Kent (AK), Pennaeth Dros Dro Gofal Cynlluniedig i drafod datblygu canolfannau triniaethau |

| | |
|---|---|
| | diagnostig mewn cymorth strategol ar gyfer gofal cynlluniedig. Rhoddodd AK grynodeb o'r cefndir drwy ddefnyddio ystadegau a defnyddiodd nifer o sleidiau cyflwyno i dynnu sylw at yr heriau, a'r cynllun Gofal Cynlluniedig Chwe Phwynt, sy'n cynnwys strategaeth 3 i 5 mlynedd. Yn dilyn hyn, cafwyd sesiwn holi ac ateb.<br><br>• **H20/26 Diweddariadau ysgrifenedig y Cadeirydd a'r aelodau**<br><br>Nododd y fforwm y diweddariadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan y cynrychiolwyr canlynol:<br><br>H20/39.1 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Bydwreigiaeth<br>H20/39.2 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Gwasanaethau Therapi / FfGPGI fel Aelod Cyswllt o'r Bwrdd<br>H20/39.3 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Gwyddor Gofal Iechyd<br>H20/39.4 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Gofal Sylfaenol a Gofal Meddygol Cymunedol<br>H20/39.5 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Nyrsio<br>H20/39.6 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Is-gadeirydd/Gofal Eilaidd a Gofal Trydyddol<br>H20/39.7 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Fferyllfa Gymunedol<br><br>Derbyniwyd diweddariadau llafar gan y cynrychiolwyr canlynol:<br><br>H20/39.8 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Rheolwyr Fferyllfa a Meddyginiaethau<br>H20/39.9 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Optometreg<br>H20/39.10 Crynodeb Ysgrifenedig FfGPGI – Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| **Cyngor / adborth allweddol ar gyfer y Bwrdd** | **H20/40 Crynodeb o wybodaeth i'w chynnwys yn adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd:**<br><br>• Roedd y Fforwm yn gefnogol o'r strategaeth gan nodi ei bod yn ei cham cynnar, ond bod ganddi uchelgais ardderchog. Mae'n rhaid i'r strategaeth sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r holl randdeiliaid, gan nodi contractwyr gofal sylfaenol fel enghraifft o ble mae'r sgwrs angen ymestyn ati. Bu aelodau ym myfyrio ar yr heriau presennol i'r agenda digidol, fel bylchau mewn caledwedd, cysondeb a chysylltedd ar draws y sefydliad y mae'n rhaid i'r strategaeth ymdrin â nhw. Roedd yr angen i drechu allgáu digidol yn y boblogaeth yn cael ei ystyried yn sylfaenol er mwyn i anghydraddoldeb iechyd beidio â thyfu yn ehangach.<br><br>• Canolfannau Diagnostig a Thriniaethau – Mae'r Fforwm yn cefnogi'r model cysyniadol sy'n ymddangos, sydd â phwyslais ar drawsnewid a dull cydlynol tuag at wasanaethau drwy Ogledd Cymru. Roedd yr aelodau yn ystyried bod hyn yn ddull |

| | |
|---|---|
| | arloesol ac yn cynghori y dylid rhoi amser i staff clinigol gael amser i gynllunio'r model a bod yn gyfranogwyr gweithredol dros gyflwyno'r achos ar gyfer newid.<br><br>Fodd bynnag, nododd yr aelodau bod y cysyniad yn datblygu heb strategaeth glinigol sefydliadol drosfwaol a all wanhau sefyllfa strategol yr achos. Mae'r tair strategaeth alluogi, sef strategaeth y gweithlu, strategaeth yr ystâd a'r strategaeth ddigidol yn ffactorau llwyddiant allweddol a dylid eu diweddaru os yw'r achos busnes yn symud yn ei flaen.<br><br>• Nododd a chefnogodd y Fforwm yr adroddiad gan Is-gadeirydd y Fforwm ynglŷn â'r angen i wella ac atgyfnerthu cyngor a gweithgaredd diogelwch Covid er mwyn sicrhau diogelwch ar ein safleoedd. |
| **Busnes cynlluniedig ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Roedd amrediad o eitemau sefydlog yn ogystal â'r:<br><br>• Cyfarwyddwr Gweithredol – Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad<br><br>• Cyfarwyddwr Sicrwydd Ansawdd – Fersiwn ddrafft o Ddatganiad Ansawdd Blynyddol (er gwybodaeth) |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | 5ed Mawrth 2021 |



DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod a dyddiad:**<br>**Meeting and date:** | Bwrdd Iechyd<br>21ain Ionawr 2021 |
| **Cyhoeddus neu Breifat:**<br>**Public or Private:** | Cyhoeddus |
| **Teitl yr Adroddiad:**<br>**Report Title:** | Crynodeb o'r busnes a ystyriwyd mewn sesiwn breifat i'w adrodd yn gyhoeddus |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:**<br>**Responsible Director:** | Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Mrs Kate Dunn, Pennaeth Materion Corfforaethol |
| **Craffu Blaenorol:**<br>**Prior Scrutiny:** | Dim |
| **Atodiadau:**<br>**Appendices:** | Dim |

**Argymhelliad / Recommendation:**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar gyfer Penderfyniad / Cymeradwyaeth For Decision/ Approval** | | **I'w Drafod For Discussion** | | **Er Sicrwydd For Assurance** | | **Er Gwybodaeth For Information** | ✓ |

**Sefyllfa / Situation:**

Adrodd mewn sesiwn gyhoeddus ar faterion a ystyriwyd yn flaenorol mewn sesiwn breifat

**Cefndir / Background:**

Mae Rheol Sefydlog 6.5.3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adrodd yn ffurfiol ar unrhyw benderfyniadau a wneir mewn sesiwn breifat i gyfarfod nesaf y Bwrdd mewn sesiwn gyhoeddus. Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd Pwyllgor.

**Asesiad / Assessment:**

Ystyriodd y Bwrdd Iechyd y materion canlynol mewn sesiwn breifat ar 12.11.20:

- Dyfarnu contract meddyg teulu gofal sylfaenol